# CYNLLUN STRATEGOL CYMRAEG MEWN ADDYSG

| Enw'r Awdurdod Lleol |
|---|
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen |
| **Cyfnod y Cynllun hwn** |
| 1 Medi 2022 - 31 Awst 2032 |

**Gwneir y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg hwn dan Adran 84 y *Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 ac mae'r cynnwys yn cydymffurfio gyda Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019*[1-2]. Rydym wedi rhoi ystyriaeth ddyledus i'r canllawiau statudol a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru wrth bennu ein targedau.**

**Llofnodwyd**: **Dermot McChrystal** **Dyddiad**: **29 Gorffennaf 2022**

[1] Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019
[2] Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) (Diwygiad) (Coronafeirws) 2020

# Ein gweledigaeth deng mlynedd ar gyfer cynyddu a gwella cynllunio darpariaeth addysg Gymraeg ei chyfrwng yn ein hardal

**Rhagair**

Fel cyngor sir, mae Torfaen, mewn cydweithrediad gyda'i rhanddeiliaid, gan gynnwys ein dysgwyr a'n pobl ifanc, wedi sefydlu gweledigaeth glir ar gyfer addysg yn seiliedig ar y dair egwyddor allweddol ganlynol:

*Mae Torfaen fel Cyngor yn credu'n angerddol yn nyfodol ein plant a'n pobl ifanc ac yn ymroddedig i'w cefnogi drwy ffocws diwyro ar godi safonau cyrhaeddiad, iechyd a lles i bawb mewn amgylchedd diogel, parchus, cynhwysol a gofalgar*

*Cefnogi a herio pob lleoliad addysg gyda phartneriaethau cryf, i ddarparu profiadau dysgu o ansawdd i alluogi i holl ddysgwyr fod y gorau y gallent fod*

*Ysbrydoli holl blant a phobl ifanc, beth bynnag eu gallu, i ddysgu drwy gydol eu bywydau ac ehangu eu profiadau, datblygu eu hiaith, gwybodaeth a'u sgiliau gan gynnwys technoleg i'w galluogi i ddod yn ddinasyddion hyderus, uchelgeisiol sy'n gallu chwarae rhan lawn ym mywyd y fwrdeistref, Cymru a'r byd*

Agwedd sylfaenol wrth sicrhau cyflawniad llwyddiannus ein gweledigaeth yw gwireddu'r Cynllun Strategol uchelgeisiol Cymraeg Mewn Addysg 2022-32. Rydym eisiau sicrhau bod ein dysgwyr yn datblygu a meithrin eu sgiliau iaith a'u hyder wrth ei defnyddio i ddod yn ddinasyddion dwyieithog. Wrth wneud hyn byddwn yn cyflawni'r targed ymestynnol cyffredinol o:

***205 (19%) o ddysgwyr Blwyddyn 1 mewn addysg Gymraeg ei chyfrwng erbyn 2032.***

| 2019/20 Data Gwaelodlin Dysgwyr Bl1 | Cynnydd pwynt canrannol is, +6 | Cynnydd pwynt canrannol uwch, +10 | Targed Torfaen Dysgwyr Bl1 2032 |
|---|---|---|---|
| 139/13% | 19% | 23% | 205/19% |

Gweledigaeth Torfaen ar gyfer darpariaeth Gymraeg ei chyfrwng ar gyfer cyfnod y CSCA newydd a thu hwnt, sy'n gysylltiedig â'r dair egwyddor allweddol uchod yw:

*Mae pob disgybl yn gallu cael addysg Gymraeg ei chyfrwng o ansawdd uchel sy'n darparu profiadau dysgu sy'n cefnogi datblygiad llwyddiannus eu hiaith, eu gwybodaeth a'u sgiliau i'w galluogi i fod y gorau y gallent fod.*

O ganlyniad, mae ein cynllun yn adeiladu ar lwyddiannau a chynnydd a wnaed gan y Cyngor mewn perthynas â darpariaeth addysg Gymraeg ei chyfrwng yn ystod cyfnod ei CSCA presennol ac yn pennu gweledigaeth glir a rhestr o gamau gweithredu sy'n adlewyrchu ein hamcanion o gydnabod hawl pob plentyn i ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg a'r angen am brofiadau dysgu o ansawdd uchel a chefnogaeth drwy gyfrwng y Gymraeg.

Lluniwyd y cynllun gan roddi ystyriaeth lawn i Strategaeth Iaith Gymraeg y Cyngor 2017-2022, gan fod llawer o feysydd yn gorgyffwrdd gyda'i chynnwys a'i huchelgais. Mae'r cynllun ei hun i gael ei arolygu a'i ddiweddaru a bydd hyn yn digwydd gyda gwybodaeth lawn o'r targedau a'r camau gweithredu yn y CSCA.

Mae'r Cyngor yn ymroddedig i arolwg parhaus o ddarpariaeth Gymraeg ei chyfrwng mewn perthynas â Chynlluniau Datblygu Lleol (CDLl).

**Gweledigaeth ar gyfer Cymru a Thorfaen**

*Y flwyddyn 2050: Y flwyddyn 2050: Mae'r iaith Gymraeg yn ffynnu, mae nifer y siaradwyr wedi cynyddu i filiwn a chaiff ei defnyddio ym mhob agwedd ar fywyd. Ymhlith y rheini nad ydynt yn ei siarad mae yna ewyllys da tuag ati ac ymdeimlad o berchnogaeth ohoni. Mae yna werthfawrogiad hefyd o'i chyfraniad i ddiwylliant, cymdeithas ac economi Cymru... Ein gweledigaeth ym mhob rhan o'r wlad yw creu amodau ffafriol sy'n cefnogi'r broses o gaffael yr iaith a'r arfer o ddefnyddio sgiliau Cymraeg. Rydym am weld cynnydd yn yr arfer o drosglwyddo'r iaith o fewn y teulu, yr arfer o gyflwyno'r Gymraeg yn gynnar i bob plentyn, system addysg sy'n rhoi sgiliau Cymraeg i bawb.*

*Cymraeg 2050 – Miliwn o siaradwyr Cymraeg (Llywodraeth Cymru, 2017)*

**Galluogwyr allweddol**:

- Cydnabod hawl pob plentyn i ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg a sicrhau bod capasiti yn cyrraedd targed ein CSCA o % o ddysgwyr mewn addysg Gymraeg ei chyfrwng
- Cydnabod hawl pob plentyn i addysg Gymraeg ei chyfrwng i'r safon uchaf gan gynnwys lleoliadau nas cynhelir
- Creu'r galw yn effeithiol drwy gyfathrebu yn arloesol ac effeithiol gyda rhieni a dysgwyr mewn perthynas â chontinwwm clir o ddarpariaeth ddysgu ansawdd uchel gan gynnwys lleoliadau nas cynhelir
- Sicrhau cwblhad effeithiol ehangu darpariaeth Gymraeg ei chyfrwng 3-19 yn Ysgol Gyfun Gwynllyw i ddiwallu'r galw presennol ac yn y dyfodol
- Ystyried opsiynau i ehangu'r ddarpariaeth bresennol i gyrraedd y targed
- Sicrhau cwblhad llwyddiannus y ddarpariaeth Feithrin Gymraeg sydd wedi ei chynllunio yn Ysgol Gynradd Greenmeadow a datblygu darpariaeth bellach ar ôl dadansoddiad manwl o'r data Digonolrwydd Gofal Plant a darpariaeth bresennol/sylwadau rhieni mewn cydweithrediad â darparwyr Blynyddoedd Cynnar, ysgolion ac asiantaethau allanol gan gynnwys Mudiad Meithrin a Menter Iaith drwy broses dendro Torfaen..
- Sefydlu darpariaeth drochi Gymraeg ei chyfrwng i gefnogi'r dysgwyr hynny sydd eisiau trosglwyddo i'r sector cyfrwng Cymraeg.
- Datblygu darpariaeth Canolfan Adnoddau Anghenion Arbennig (CAAA) Gymraeg ei chyfrwng ar gyfer dysgwyr Anhwylder Sbectrwm Awtistiaeth (ASA) a darparu lefelau uwch o gymorth yn y cyfamser drwy ddefnyddio'r Grant Trochi yn effeithiol.
- Cynyddu'r canran o rieni sy'n dewis addysgu eu plant gyda gofal plant a darpariaeth gynradd yn y Gymraeg drwy gyfrwng cyfathrebu effeithiol iawn yn cynnwys holl leoliadau, gan gynnwys rhai nas cynhelir
- Sicrhau trefniadau effeithiol mi wella cyfraddau pontio i'r sector uwchradd a thu hwnt

- Adolygu arferion presennol mewn partneriaeth ag is-grŵp hyrwyddo ein Fforwm Cymraeg mewn Addysg i sicrhau hyrwyddo cyfleoedd cyfrwng Cymraeg yn effeithiol i holl ddysgwyr, a manteision dwyieithrwydd.

## Canlyniad 1:

## Mwy o blant meithrin/tair oed yn derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg

### Ble rydyn ni nawr?

Mae Asesiad diweddaraf Digonolrwydd Gofal Plant yn nodi bod capasiti digonol yn y ddarpariaeth gofal plant Cymraeg i ddiwallu galw presennol rhieni am leoedd, ond mae galw cynyddol wedi datblygu yn y tair blynedd diwethaf.

Nifer y darparwyr gofal plant Cymraeg eu cyfrwng ar hyn o bryd:

| | Nifer y lleoliadau | Nifer y lleoedd ar gael | Nifer lleoedd Cymraeg eu cyfrwng wedi eu cymryd ar hyn o bryd | Sylw/C |
|---|---|---|---|---|
| Lleoedd gofal plant Dechrau'n Deg wedi eu hariannu mewn lleoliadau gofal plant Cymraeg eu cyfrwng | 2 | 63 | 30 (2021/22) | Roedd cynnydd o 7% yn y galw i 16% o ddiwethaf ac mae'r ALI ar hyn o bryd yn deddfwriaeth Dechrau'n Deg.<br><br>1 lleoliad yn y de ac 1 lleoliad yng nghan<br><br>Meithrinfa Pontnewydd – Pontnewydd 3 chyfrwng, Ysgol Gymraeg agosaf ac Ysg<br><br>Cylch Meithrin Abersychan |
| Darparwyr gofal plant Cymraeg eu cyfrwng yn cynnig Gofal Meithrin Cyfnod Sylfaen | 1 | 36 | 20 | Trefniadau pontio cryf yn bodoli gydag y |
| Cylch Meithrin yn Nhorfaen ar gyfer plant 2-5 oed | 4 | 68 | 21 | Amrywiaeth o glybiau brecwast a sesiyn |
| 1 Meithrinfa Ddydd Gofal | 1 | 62 | Dd/b | Gofal dydd llawn, sesiynol ac addysg |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Plant 0-8 oed | | | | |
| Gofalwyr Plant Dwyieithog | 1 | 10 | Dd/b | Diwrnod llawn, 0-12 oed |

Dadansoddiad tair blynedd yn seiliedig ar niferoedd dewis iaith mewn lleoliadau gofal plant **2020/21**

| **Dewis iaith mewn lleoliadau gofal plant** | 01 Ebr 2020-31 Awst 2020 | 01 Med 2020-31 Rhag 2020 | 01 Ion 2021-31 Maw 2021 | Blyddyn hyd yma |
|---|---|---|---|---|
| Nifer o blant newydd gymhwyso sy'n gofyn yn benodol am ofal plant drwy gyfrwng y Gymraeg | 7 | 27 | 4 | 38 |
| Nifer o blant newydd gymhwyso sy'n gofyn yn benodol am ofal plant drwy gyfrwng y Saesneg | 51 | 78 | 77 | 206 |
| Cyfanswm nifer ceisiadau darpariaeth iaith a wnaed | **58** | **105** | **81** | **244** |

**2019/20**

| **Dewis iaith mewn lleoliadau gofal plant** | 01 Ebr 2019-31 Awst 2019 | 01 Med 2019-31 Rhag 2019 | 01 Ion 2020-31 Maw 2020 | Blwydd yn hyd yma |
|---|---|---|---|---|
| Nifer o blant newydd gymhwyso sy'n gofyn yn benodol am ofal plant drwy gyfrwng y Gymraeg | 13 | 9 | 11 | 33 |
| Nifer o blant newydd gymhwyso sy'n gofyn yn benodol am ofal plant drwy gyfrwng y Saesneg | 71 | 131 | 119 | 321 |
| Cyfanswm nifer ceisiadau darpariaeth iaith a wnaed | **84** | **140** | **130** | **354** |

**2018/19**

| **Dewis iaith mewn lleoliadau gofal plant** | 01 Ebr 2018-31 Awst 2018 | 01 Med 2018-31 Rhag 2018 | 01 Ion 2019-31 Maw 2019 | Blwydd yn hyd yma |
|---|---|---|---|---|
| Nifer o blant newydd gymhwyso sy'n gofyn yn benodol am ofal plant drwy gyfrwng y Gymraeg | 6 | 3 | 5 | 14 |
| Nifer o blant newydd gymhwyso sy'n gofyn yn benodol am ofal plant drwy gyfrwng y Saesneg | 98 | 134 | 103 | 335 |
| Cyfanswm nifer ceisiadau darpariaeth iaith a wnaed | **104** | **137** | **108** | **349** |

| **Cylch** | Capasiti (yn ôl cofrestriad AGC) | **Capasiti** go iawn | **Ysgolion bwydo/Cylch** | **Nifer plant 2 oed** (oed ar 31.08.20) | **Nifer plant 2 oed** (oed ar 31.08.20) | **Nifer yn mynychu Ti a Fi** | **Nifer Dechra u'n deg** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Abersychan | 20 | 15 | Bryn Onnen | 17 | 13 | 5 | 20 |
| Cwmbrân | 13 | 8 | YGG Cwmbrân, YGG Panteg | 1 | 1 | 1 | |
| Pontnewydd | 24 | 16 | Cwmbrân | 25 | 3 | 6 | 20 |
| Pont-y-pŵl | 19 | 24 | Panteg, Bryn Onnen | 11 | 13 | 9 | |

| | 2020-21 | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Cylch** | **Cyfanswm nifer plant yn trosglwyddo i'r ysgol** | **Nifer yn trosglwyddo i ysgol Gymraeg ei chyfrwng** | **Nifer yn trosglwyddo i ysgol Saesneg ei chyfrwng** | **% yn trosglwyddo i ysgol Gymraeg ei chyfrwng** |
| Abersychan | 13 | 9 | 4 | 69.23% |
| Cwmbrân | 2 | 1 | 1 | 50.00% |
| Pontnewydd | 6 | 1 | 5 | 16.67% |
| Pont-y-pŵl | 11 | 10 | 1 | 90.91% |
| Dôl Werdd | 0 | 0 | 0 | - |

| Blwyddyn ysgol | Nifer o leoliadau | Nifer Cylchoedd Meithrin | Nifer sydd wedi mynychu Cylch Meithrin | Nifer sydd wedi trosglwydd o o'r Cylch i ysgol | Ysgol Gymraeg | % |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **2015-16** | 2 | 2 | 59 | 27 | 24 | **88.89%** |
| **2016-17** | 2 | 2 | 67 | 35 | 30 | **85.71%** |
| **2017-18** | 3 | 3 | 117 | 55 | 49 | **89.09%** |
| **2018-19** | 3 | 3 | 108 | 34 | 20 | **58.82%** |
| **2019-2020*** | 4 | 7 | 101 | 48 | 30 | **62.50%** |
| **2020-2021** | 5 | 8 | 126 | 32 | 21 | **65.63%** |

Mae Torfaen wedi sicrhau grantiau cyfalaf a ariannwyd gan LlC i ddatblygu darpariaeth o ofal plant Cymraeg ei gyfrwng ymhellach ledled y fwrdeistref gydag amrediad eang o leoliadau yn cynnwys Ysgol Panteg, drwy gyllid cyfalaf y Cynnig Gofal Plant, yn Ysgol Gyfun Gwynllyw fel rhan o'r ehangiad 3-19 a gynlluniwyd a fydd wedi ei gwblhau erbyn blwyddyn academaidd 2022-23 a Chylch Meithrin Dôl Werdd ar safle Ysgol Gynradd Dôl Werdd.

Rydym ar hyn o bryd yn gweithio gyda phob partner a gynhelir ac nas cynhelir drwy ein proses dendro newydd i adolygu holl lefelau darpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg gan gynnwys Dechrau'n Deg, gofal plant a meithrin. Drwy gydol y broses hon rydym wedi gweithio'n agos gyda chynrychiolwyr o Mudiad Meithrin.

Fel rhan o'r broses dendro, rydym ar fin cyhoeddi'r canlyniadau ac mae yn cynnwys darpariaeth ychwanegol drwy gyfrwng y Gymraeg, ond ni allwn roi mwy o fanylion ar hyn o bryd gan nad yw'r lleoliadau dan sylw wedi eu hysbysu o'r canlyniadau. Bydd yr wybodaeth hon yn ein cynllun gweithredu.

Bydd cwblhad llwyddiannus datblygiad Ysgol Gyfun Gwynllyw 3-19 a'r ddarpariaeth feithrin gysylltiedig, ynghyd â sicrhau gwneud y mwyaf o'r capasiti mewn lleoliadau eraill, yn darparu'r capasiti ychwanegol i'r awdurdod i symud yn agosach at ei dargedau o fewn oes CSCA newydd Torfaen. Ein nod erbyn diwedd y cynllun hwn yw sicrhau bod 205 o blant yn

mynychu darpariaeth feithrin Gymraeg ei chyfrwng a sicrhau eu bod yn pontio i addysg Gymraeg ei chyfrwng.

Y prif heriau ar gyfer pob lleoliad o hyd yw recriwtio staff iaith Gymraeg gyda'r cymwysterau priodol.

**Lle rydym yn anelu at fod o fewn 5 mlynedd gyntaf y Cynllun hwn a sut rydym yn cynnig cyrraedd y pwynt hwnnw?**

Nod cyffredinol Torfaen o fewn pum mlynedd gyntaf ein cynllun yw gweld gwireddiad llwyddiannus y datblygiadau yn Ysgol Gwynllyw, Ysgol Panteg a Dôl Werdd a'r galw am ddarpariaeth Gymraeg ei chyfrwng yn y sector nas cynhelir yn parhau i ffynnu gyda chyfraddau pontio uwch i lwybrau addysg ffurfiol drwy gyfrwng y Gymraeg. O ganlyniad byddwn yn gweld niferoedd uwch o ddysgwyr yn pontio'n llwyddiannus i gyfnod nesaf eu haddysg statudol a thu hwnt drwy gyfrwng y Gymraeg. Ein targed ar gyfer 5 mlynedd gyntaf y cynllun yw sicrhau bod 142 o blant mewn darpariaeth blynyddoedd cynnar Gymraeg ei chyfrwng. Mae cyflawni'r targed yma yn seiliedig ar y camau gweithredu canlynol:

**Camau gweithredu i gyflawni'r targedau:**

- Sicrhau bod deunyddiau marchnata a chyfathrebu hynod effeithiol gyda rhieni a dysgwyr yn cael eu rhannu yn amserol gan staff Blynyddoedd Cynnar a gofal iechyd gan gynnwys mwy yn defnyddio cynlluniau megis Cymraeg i blant/Cymraeg for kids https://www.meithrin.cymru/cymraeg-for-kids/ a Clwb Cwtsh Cwtsh clwb (meithrin.cymru)
- Yn wyneb y dadansoddiad a ymgymerwyd fel rhan o waith paratoi'r CSCA, mae heriau mewn perthynas â'r niferoedd yn defnyddio darpariaeth feithrin Gymraeg ei chyfrwng ac wedyn yn trosglwyddo i ac yn aros mewn addysg Gymraeg ei chyfrwng wedi eu hadnabod. Bydd arolwg cyflym yn cael ei wneud o'r holl ddarpariaeth feithrin a gynhelir a nas cynhelir drwy gyfrwng y Gymraeg yn chwe mis cyntaf y cynllun ac fe gaiff argymhellion eu gweithredu wedi hynny.
- Ym mlwyddyn gyntaf y cynllun hwn, sefydlu is-grŵp Blynyddoedd Cynnar i'r Fforwm Cymraeg mewn Addysg er mwyn cynllunio a goruchwylio camau gweithredu o fewn y canlyniad hwn. Bydd yr is-grŵp hwn yn cynnwys cynrychiolwyr o dîm blynyddoedd cynnar CBST, Mudiad Meithrin, cynrychiolwyr o amrywiol leoliadau ac ysgolion Cymraeg eu cyfrwng.

Yn seiliedig ar argymhellion yr arolwg cyflym:

- Mewn lleoliadau Cymraeg eu cyfrwng lle mae niferoedd yn isel, byddwn yn rhoi ar waith gynlluniau marchnata cadarn a chymorth i sicrhau bod y lleoedd sydd ar gael yn cael eu llenwi.
- Mewn lleoliadau gyda chyfradd bontio isel i addysg Gymraeg ei chyfrwng, byddwn yn rhoi ar waith gynllluniau penodol yn y lleoliadau hynny, wedi eu datblygu a'u goruchwylio gan yr is-grŵp Blynyddoedd Cynnar.
- Gweithio gyda'r 3 / 4 ysgol gynradd Gymraeg eu cyfrwng i arolygu'r gyfradd bontio rhwng meithrin a derbyn, a lle mae hyn o dan 100%, datblygu cynlluniau cadarn i wella'r gyfradd bontio.
- Byddwn yn asesu yn barhaus yr angen i ddatblygu darpariaeth newydd mewn ardaloedd lle nad oes darpariaeth ar hyn o bryd.

- Byddwn yn parhau i asesu’r angen i ehangu’r ddarpariaeth bresennol er mwyn ymateb i nifer targed y dysgwyr mewn addysg Gymraeg ei chyfrwng.

- Parhau i ddefnyddio data wedi ei ddiweddaru yn effeithiol o Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant 2022 ynghyd â’r dadansoddiad parhaus o anghenion drwy ein prosesau derbyn i ddiweddaru a bwydo gwybodaeth i benderfyniadau cynllunio Corfforaethol mewn perthynas â darpariaeth. Sicrhau ymgynghori effeithiol drwy arolygon rhieni i fwydo gwybodaeth ar gyfer cynllunio capasiti ac ansawdd darpariaeth yn y dyfodol gan is-grŵp Blynyddoedd Cynnar Cymraeg ei gyfrwng, wedi ei sefydlu i wneud y gwaith hwn.
- Sicrhau agoriad a thwf darpariaeth feithrin ar safle newydd 3-19 Ysgol Gyfun Gwynllyw.
- Fel rhan o’n arolwg o anghenion buddsoddiad cyfalaf ar ôl Band B/2024 (Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif gynt, ond bellach yn cael ei galw yn Raglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu), a dyfodiad y Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig sy’n rhedeg ochr yn ochr, byddwn yn parhau i asesu’r angen am dwf pellach yn y sector Blynyddoedd Cynnar i sicrhau ei fod yn cadw i fyny gyda’r twf mewn lleoedd ysgol. Bydd gofynion staffio yn rhan annatod o’r dadansoddiad hwnnw hefyd.
- Datblygu ymhellach y berthynas gyda Mudiad Meithrin a’r Tîm Blynyddoedd Cynnar i wella darpariaeth bresennol cyn-ysgol Gymraeg ei chyfrwng a sicrhau ansawdd uchel a chapasiti i fodloni dewisiadau rhieni. Bydd hyn yn rhan allweddol o’r is-grŵp Blynyddoedd Cynnar y byddwn yn ei sefydlu.
- Adolygu darpariaeth Dechrau’n Deg i wella darpariaeth bresennol Gymraeg ei chyfrwng gyda’r nod o gynyddu’r nifer o leoedd sydd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer plant 2-3 oed.
- Arolygu a diweddaru lle bo angen ein proses o wneud cais / trefniadau derbyn dwyieithog i sicrhau bod gwybodaeth gynhwysfawr ar gael i rieni (gan gynnwys dyddiadau allweddol) yn amlinellu’r trefniadau a’r manteision o wneud cais am addysg Gymraeg ei chyfrwng yn Nhorfaen. Mae hyn yn cynnwys diweddaru’r llyfryn ‘Yr Iaith Gymraeg’ sy’n cael ei ddiweddaru bob blwyddyn a’r wybodaeth ar wefan y cyngor http://www.torfaen.gov.uk/en/Educationlearning/SchoolsColleges/SchoolAdmissions/Educatonthroughthe MediumofWelsh/aspx.
- Sicrhau bod holl staff Blynyddoedd Cynnar yn derbyn cyfleoedd datblygu proffesiynol addas mewn perthynas â chyfathrebu manteision y cynnig Cymraeg yn effeithiol i rieni
- Arolygu rhaglen gwaith i’r dyfodol Fforwm Cymraeg mewn Addysg Torfaen i sicrhau ei bod yn cefnogi’r cyngor o ran cyflawni ei ddyletswyddau statudol a’i bolisïau wrth gyflawni ei flaenoriaethau datblygu mewn perthynas â’r CSCA gan gynnwys cyfraddau pontio uwch i addysg Gymraeg ei chyfrwng. Y rhaglen i gynnwys:
    - Arolwg llawn o ddeunyddiau hyrwyddo presennol a chyfathrebu sy’n seiliedig ar egwyddorion (a yw’n Hawdd, Deniadol, Cymdeithasol ac Amserol). Y pwrpas yw sicrhau bod deunydd marchnata yn defnyddio’r holl lwyfannau sydd ar gael yn effeithiol a bod y deunydd adnoddau diweddaraf ar gael i farchnata manteision Addysg Gymraeg ei Chyfrwng i rieni a dysgwyr.
    - Dull clwstwr Torfaen a ariennir gyda grant i gefnogi cynllunio strategol yr ehangiad 3-19 yn Gwynllyw. I gynnwys datblygiad cwricwlwm wedi ei alinio gyda datblygiadau Cwricwlwm i Gymru a dulliau addysgeg yn y cyfnod cynradd sy’n cyd-fynd â chynnydd ar draws y fwrdeistref a thu hwnt. (Bydd hyn yn agwedd bwysig o’r strategaeth farchnata gyda rhieni mewn perthynas â chynnydd)

**Lle rydym yn disgwyl bod ar ddiwedd ein Cynllun deng mlynedd?**

Heb eithriad, ar ôl creu galw ychwanegol am addysg drwy gyfrwng y Gymraeg drwy gyfrwng cyfathrebu arloesol, bydd pob cais gan rieni/gofalwyr i'w plentyn gael ei addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn cael eu diwallu, a byddant yn derbyn continwwm priodol o ddysgu o 3-19 a fydd yn eu galluogi i fod y gorau allent fod. Ein nod yw sicrhau bod 205/19% o blant mewn lleoliadau gofal plant Cymraeg eu cyfrwng erbyn diwedd y cynllun.

**Data allweddol**

| Niferoedd a % plant 3 oed sy'n derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2022 - 2023 | | 2023 - 2024 | | 2024 - 2025 | | 2025 - 2026 | | 2026 - 2027 | |
| | 8-10% | | 8-10% | | 10-12% | | 10-12% | | 14-16% |
| 2027 - 2028 | | 2027 - 2028 | | 2027 - 2028 | | 2027 - 2028 | | 2027 - 2028 | |
| | 14-16% | | 16-18% | | 16-18% | | 18-20% | | 18-20% |

## Canlyniad 2

### Mwy o blant dosbarthiadau derbyn / plant pump oed yn derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg

**Lle rydyn ni nawr?**

Y data presennol ar gyfer dosbarthiadau meithrin a derbyn yn ein tair ysgol gynradd Gymraeg eu cyfrwng yw:

| Data derbyn i feithrinfeydd | | | |
|---|---|---|---|
| Lleoliad | Lleoedd Meithrin (cyfwerth â rhan-amser) | Ffigwr Ionawr 2021 (nifer) | Ffigwr Ionawr 2022 (nifer) |
| Ysgol Bryn Onnen | 20 (40) | 36 | 23 |
| Ysgol Gymraeg Cwmbrân | 56 (112) | 49 | 41 |
| Ysgol Panteg | 42 (84) | 54 | 48 |
| Ysgol Gyfun Gwynllyw | 29 (58) (O fis Medi 2022) | Dd/b | Dd/b |

| Data derbyn dosbarth derbyn | | | |
|---|---|---|---|
| Lleoliad | Rhif Derbyn | Ffigwr Ionawr 2021 (gwir) | Ffigwr Ionawr 2022 (gwir) |
| Ysgol Bryn Onnen | 30 | 23 | 28 |
| Ysgol Gymraeg Cwmbrân | 47 | 38 | 40 |
| Ysgol Panteg | 60 | 57 | 51 |
| Ysgol Gyfun Gwynllyw | 30(45) | Dd/b | Dd/b |
| Cyfanswm Lleoedd/Niferoedd | 167 (182) | 118 | 119 |

| |
|---|
| Ym mis Ionawr 2021 roedd 118 neu 11.40% o ddisgyblion mewn dosbarthiadau derbyn ar draws y tri lleoliad cynradd Cymraeg eu cyfrwng, gyda niferoedd yn aros yn sefydlog ym mis Ionawr 2022 (11.35%).<br><br>Mae niferoedd meithrin yn cyfateb i 13.23% o blant ifanc yn 2021 (yn cynnwys rhai sy'n 'codi'n 3' ym mis Ionawr) gan syrthio ychydig i 12.32% ym mis Ionawr 2022. Mae tueddiadau dros dair blynedd yn amrywiol gyda gostyngiad bach o ryw 14.02% ym mis Ionawr 2019 a mis Ionawr 2020.<br><br>Mae Torfaen wedi sicrhau, drwy gynllunio presennol/arfaethedig at y dyfodol dan y Rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu y bydd capasiti ar draws y fwrdeistref yn tyfu drwy ehangiad Ysgol Gyfun Gwynllyw yn ddarpariaeth 3-19 Gymraeg ei chyfrwng gan gynnwys meithrin. Mae'r cynllun yn darparu ar gyfer 30 lle ychwanegol i ddysgwyr blwyddyn 1 lleoedd cynradd gyda lle ychwanegol ar gael yn y dyfodol, yn amodol ar gyllid cyfalaf ychwanegol, i gynyddu capasiti i 45 lle. Fodd bynnag, rydym yn gwybod na fydd y datblygiad hwn ar ben ei hun yn sicrhau ein bod yn cyrraedd ein targed, ac yn ychwanegol at y datblygiad hwn, byddwn y cymryd nifer o gamau i ysgogi galw ar draws y sir gyfan. |
| **Lle rydym yn anelu at fod ym mhum mlynedd gyntaf y Cynllun hwn a sut rydym yn cynnig cyrraedd y pwynt hwnnw?** |
| Mae ein sefyllfa bresennol yn dangos galw cynyddol am addysg Gymraeg ei chyfrwng yn Nhorfaen, ac mae angen i ni adeiladu ar hyn yn ystod oes y CSCA hwn. Ein prif flaenoriaeth dan y canlyniad hwn fydd ystyried opsiynau i gynyddu lleoedd ysgol o fewn ein darpariaeth Gymraeg ei chyfrwng bresennol ynghyd â gweithredu, gyda'n fforwm Cymraeg mewn Addysg, gynllun cadarn i gefnogi agoriad darpariaeth cyfnod cynradd Ysgol Gwynllyw. Byddwn hefyd yn parhau i weithio gyda'n is-grŵp hyrwyddo fforwm Cymraeg mewn Addysg i ddeall dewisiadau a dymuniadau rhieni/gofalwyr o ran addysg Gymraeg ei chyfrwng, a lle mae rhwystrau neu resymau wedi eu nodi o ran pam nad ydynt yn gallu cael addysg Gymraeg ei chyfrwng – rhoi ar waith dargedau mesuradwy i ddelio gyda'r materion hyn yn ystod blwyddyn gyntaf y cynllun.<br><br>Bydd cwblhad llwyddiannus datblygiad 3-19 Ysgol Gyfun Gwynllyw, wedi ei ariannu gan grant Llywodraeth Cymru, yn darparu 30 lle ychwanegol i gyfrannu tuag at gynyddu nifer y plant mewn dosbarthiadau derbyn a ddysgir drwy gyfrwng y Gymraeg o fewn pum mlynedd i CSCA newydd Torfaen. Mae potensial hefyd i ychwanegu lleoedd pellach, yn amodol ar argaeledd swm cymharol fychan o arian cyfalaf, oherwydd er y bydd yn agor fel ysgol 210 lle, mae wedi ei dylunio fel lle 315 ac felly gellir cynyddu yn hawdd drwy ychwanegu peth lle dosbarth ychwanegol.<br><br>Gellir cael cynnydd o ffigurau presennol (Ionawr 22) o 119 (11.35% o'r garfan gyfan) o blant pump oed mewn darpariaeth gynradd (derbyn) Gymraeg ei chyfrwng i 167 (16.3%** yn 2026/27) gyda'r lleoliad newydd hwn.<br>(**Y dybiaeth yw cyfanswm nifer disgyblion oedran cynradd yn 2026/27 o 7155 / 7-grŵp blwyddyn = 1022 fesul grŵp blwyddyn /167 = 16.3%) |

Gyda'r opsiwn i ehangu'r ddarpariaeth ymhellach i 315 lle yn unol ag ôl troed mwyaf yr adeilad newydd, a chan dybio bod pob un o'r 4 lleoliad Cynradd Cymraeg eu cyfrwng yn cyrraedd eu rhif derbyn yn llawn (gweler yr ail dabl ar ddechrau Canlyniad 2 i gael y manylion), byddai 182 lle ar gael. Byddai diffyg bach o hyd (23 lle) i gyflawni'r targed o 205, ond esbonnir isod sut gellir cyflawni hyn.

**Camau gweithredu i gyflawni'r targedau:**

- Sicrhau bod deunyddiau cyfathrebu a marchnata effeithiol iawn gyda rhieni yn cael eu rhannu yn amserol gyda rhieni a dysgwyr yn ystod cyfnodau pontio a nosweithiau agored.
- Sicrhau cwblhad llwyddiannus a thwf y ddarpariaeth gynradd eginol ar safle newydd 3-19 Ysgol Gyfun Gwynllyw ac adolygu dalgylchoedd ysgolion cynradd Cymraeg eu cyfrwng, i ddelio gyda phwysau capasiti ar Ysgol Panteg.
- Arolygu'r ddarpariaeth Gymraeg ei chyfrwng mewn perthynas â Chynlluniau Datblygu Lleol (CDLl) gan ddefnyddio'r cyfle i ddiwallu unrhyw alw cynyddol sy'n fwy na'r capasiti presennol a gynllunnir, gan gynnwys ystyried darpariaeth newydd Gymraeg ei chyfrwng neu ail-ddynodi darpariaeth Saesneg ei chyfrwng lle mae capasiti sbâr arwyddocaol. Bydd y gwaith hwn yn alinio'n agos gyda'r gwaith o adnabod ehangu darpariaeth mewn ysgolion presennol Cymraeg eu cyfrwng. Byddwn yn parhau i sicrhau bod darpariaeth yn cael ei lledaenu'n briodol ledled y fwrdeistref ac nad yw amserau teithio yn ormodol.

- Sicrhau partneriaeth waith agos, cydweithredol ac effeithiol gyda'r holl randdeiliaid.
- Arolygu rhaglen waith i'r dyfodol Fforwm Cymraeg mewn Addysg Torfaen i sicrhau ei fod yn cefnogi'r Cyngor i gyflawni ei ddyletswyddau statudol mewn perthynas â'r CSCA. Y rhaglen i gynnwys:
  - Parhau gyda gwaith is-grŵp y Fforwm Cymraeg mewn Addysg i adolygu deunyddiau hyrwyddo a chyfathrebu yn seiliedig ar egwyddorion EAST (a yw'n Hawdd, Deniadol, Cymdeithasol ac Amserol). Y pwrpas yw sicrhau bod deunydd marchnata yn defnyddio'r holl lwyfannau sydd ar gael a'r deunyddiau adnoddau diweddaraf i farchnata manteision Addysg Gymraeg ei Chyfrwng i rieni a dysgwyr.
  - Dull clwstwr Torfaen a ariennir gyda grant i gefnogi cynllunio strategol yr ehangiad 3-19 yn Gwynllyw. I gynnwys datblygiad cwricwlwm wedi ei alinio gyda datblygiadau Cwricwlwm i Gymru a dulliau addysgeg yn y cyfnod cynradd sy'n cyd-fynd â chynnydd ar draws y fwrdeistref a thu hwnt. (Bydd hyn yn agwedd bwysig o'r strategaeth farchnata gyda rhieni mewn perthynas â chynnydd)
  - ALl ar y cyd â LlC i ariannu capasiti arweinyddiaeth ychwanegol yn Ysgol Gyfun Gwynllyw drwy benodi pennaeth uwchradd profiadol wedi ei secondio i gyflymu a sicrhau datblygiad y cyfnod cynradd.
- Gweithredu fel rhan o gyflwyno datblygiad Gwynllyw, darpariaeth fel a ganlyn:
  - Dros 2-3 blynedd gyntaf y cynllun, cwmpasu a sicrhau cyllid ar gyfer cyfleusterau CAAA penodol Cymraeg eu cyfrwng ar gyfer dysgwyr ASA. (Bydd hyn yn agwedd bwysig o'r strategaeth farchnata gyda rhieni dysgwyr gydag anghenion dysgu ychwanegol a adnabuwyd)
  - Penderfynu cwmpas darpariaeth drochi yn Ysgol Gyfun Gwynllyw yn 2022/23 gyda golwg ar sicrhau cymeradwyaeth a chyllid yn 2023/24 ac yna gweithredu'r cynnig. Yn y cyfamser, ystyried darpariaeth drwy gyfrwng trefniadau cydweithredol gydag Awdurdodau Lleol cyffiniol.
    At hyn, mae'r ALl, drwy Grant Trochi LlC, wedi darparu cyllid arwyddocaol ar gyfer:

- Caffael cymorth dysgu / cynorthwywyr dysgu ychwanegol yn seiliedig ar glwstwr o dair ysgol gynradd i ddarparu gwasanaeth trochi sgiliau iaith dwys neu ryddhau athrawon/HLTA/CCD presennol gyda sgiliau i gyflenwi'r gwaith trochi/ymyrraeth a gynlluniwyd. (Dau athro llawn amser ac un cynorthwyydd dysgu llawn amser ar draws y dair ysgol)
- Caffael adnoddau ychwanegol arwyddocaol megis gemau iaith, rhifedd, ymarfer iaith a phatrymau i gefnogi datblygiad sgiliau iaith disgyblion
- Uwchsgilio staff drwy ddarparu dysgu proffesiynol o gwmpas methodoleg trochi. Hyd yma, mae gennym staff cymorth ar draws y dair ysgol wedi eu hyfforddi gan Eirian Jones i ddefnyddio Tric a Chlic a holl staff cyfnod sylfaen ynghyd a phedwar o'r ysgol uwchradd.

o Hanfodol i alluogi trosglwyddiad llwyddiannus yn y cyfnod cynradd cynnar i ddarpariaeth Gymraeg ei chyfrwng.

- Sicrhau defnydd effeithiol o ymgynghoriad drwy arolygon rhieni i fwydo gwybodaeth i'r broses o gynllunio capasiti ac ansawdd darpariaeth yn y dyfodol.

**Lle rydym yn disgwyl bod ar ddiwedd ein Cynllun deng mlynedd?**

Bydd pob plentyn sy'n gofyn am lwybr addysg drwy gyfrwng y Gymraeg yn cael mynediad llawn at addysg Gymraeg ei chyfrwng o'r blynyddoedd cynnar (yn 3 oed) hyd at 7 oed gyda'r gallu i bontio'n llwyddiannus drwy gyfrwng y Gymraeg i gyfnod nesaf eu haddysg a'u bywyd cymdeithasol hyd at 11 oed a thu hwnt.

**Data Allweddol**

Data presennol ar gyfer mis Medi 2021 yn ystyried trosglwyddiadau oherwydd ceisiadau gan rieni yn ystod y pandemig.

| ENW'R YSGOL: | YSGOL BRYN ONNEN - MEDI 2021 | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | R | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | CYFANSW |
| | | | | | | | | |
| NAG GWIRIONEDDOL MEDI 2020 | 30 | 25 | 26 | 29 | 25 | 24 | 26 | 185 |
| NAG A RAGWELIR MEDI 2022 | 30 | 30 | 25 | 26 | 29 | 25 | 24 | 189 |
| NAG A RAGWELIR MEDI 2023 | 30 | 30 | 30 | 25 | 26 | 29 | 25 | 195 |
| NAG A RAGWELIR MEDI 2024 | 30 | 30 | 30 | 30 | 25 | 26 | 29 | 200 |
| NAG A RAGWELIR MEDI 2025 | 30 | 30 | 30 | 30 | 30 | 25 | 26 | 201 |
| NAG A RAGWELIR MEDI 2026 | 30 | 30 | 30 | 30 | 30 | 30 | 25 | 205 |

| ENW'R YSGOL: | YSGOL GYMRAEG CWMBRÂN - MEDI 2021 | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | R | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | CYFANSW |
| | | | | | | | | |
| NAG GWIRIONEDDOL MEDI 2021 | 40 | 38 | 37 | 45 | 44 | 45 | 40 | 289 |
| NAG A RAGWELIR MEDI 2022 | 47 | 40 | 38 | 37 | 45 | 44 | 45 | 296 |
| NAG A RAGWELIR MEDI 2023 | 47 | 47 | 40 | 38 | 37 | 45 | 44 | 298 |
| NAG A RAGWELIR MEDI 2024 | 47 | 47 | 47 | 40 | 38 | 37 | 45 | 301 |
| NAG A RAGWELIR MEDI 2025 | 47 | 47 | 47 | 47 | 40 | 38 | 37 | 303 |
| NAG A RAGWELIR MEDI 2026 | 47 | 47 | 47 | 47 | 47 | 40 | 38 | 313 |

| ENW'R YSGOL: | YSGOL PANTEG - MEDI 2021 | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **R** | **1** | **2** | **3** | **4** | **5** | **6** | **CYFANSWM** |
| | | | | | | | | |
| NAG GWIRIONEDDOL MEDI 2010 | 48 | 56 | 67 | 53 | 48 | 48 | 35 | 355 |
| NAG A RAGWELIR MEDI 2022 | 60 | 48 | 56 | 67 | 53 | 48 | 48 | 380 |
| NAG A RAGWELIR MEDI 2023 | 60 | 60 | 48 | 56 | 67 | 53 | 48 | 392 |
| NAG A RAGWELIR MEDI 2024 | 60 | 60 | 60 | 48 | 56 | 67 | 53 | 404 |
| NAG A RAGWELIR MEDI 2025 | 60 | 60 | 60 | 60 | 48 | 56 | 67 | 411 |
| NAG A RAGWELIR MEDI 2026 | 60 | 60 | 60 | 60 | 60 | 48 | 56 | 404 |

*NAG – Nifer ar y Gofrestr*

Bydd darpariaeth gynradd newydd yn Ysgol Gyfun Gwynllyw yn darparu 210 lle ychwanegol i gyd gyda rhif derbyn o 30 y flwyddyn, gyda'r capasiti i gynyddu i 315 lle a rhif gwirioneddol o ganlyniad o 45. Cyfanswm lleoedd Cymraeg eu Cyfrwng wedyn fydd 1200 (1305) er y bydd YGG yn agor fel ysgol 'egino' a thyfu flwyddyn ar ôl blwyddyn. Mae capasiti ysgolion cynradd fel a ganlyn: -

Ysgol Bryn Onnen – 210
Ysgol Gymraeg Cwmbrân – 360
Ysgol Panteg - 420
Ysgol Gyfun Gwynllyw - 210 (315)
CYFANSWM - 1200 (1305)

| Niferoedd a % o blant 5 oed yn derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2022 - 2023 | | 2023 - 2024 | | 2024 - 2025 | | 2025 - 2026 | | 2026 - 2027 | |
| 119 | 11.7% | 131 | 12.9% | 144 | 14.1% | 156 | 15.3% | 167 | 16.3% |
| 2027 - 2028 | | 2028 - 2029 | | 2029 - 2030 | | 2030 - 2031 | | 2031 – 2032 | |
| 167 | 16.3% | 167 | 16.3% | 167 | 16.3% | 205 | 19% | 205 | 19% |

lae'r ffigurau uchod yn seiliedig ar y canlynol: 167 yn 2026/27 uchod yn dybiaeth yn seiliedig rementau cyfartal o'r ffigwr presennol (119) i ffigwr PAN yn seiliedig ar ffigwr ehangu YGG yfanswm AN = 167). Byddai'r cynnydd terfynol i ôl troed 315 (h.y. cynnydd mewn niferoedd neddol o 30 i 45 fesul grŵp blwyddyn) yn rhoi cyfanswm nifer gwirioneddol o 182.

ried bod y targed o 205 yn fwy na'r nifer lleoedd a ragwelir ar hyn o bryd, ac er y byddwn yn u i fonitro'r hyn sydd angen i ni ei wneud i gynyddu ein darpariaeth cyfrwng Cymraeg ac i'r galw am ddarpariaeth Gymraeg ei chyfrwng, byddwn yn datblygu cynllun yn 2022/23 i ymhellach beth sydd angen i'r ALl ei wneud i gyflawni'r targed 19% 2031/32 a gweithredu yn hynny dros oes y cynllun hwn. Bydd hyn yn caniatáu amser digonol i gynllunio a gweithredu giadau i sicrhau bod digon o leoedd (205) ar gael i gyrraedd y targed a bennwyd ar gyfer a thu hwnt.

## Canlyniad 3

## Mwy o blant yn parhau i wella eu sgiliau iaith Gymraeg wrth drosglwyddo o un cyfnod yn eu haddysg statudol i gyfnod arall

**Lle rydyn ni nawr?**

Mae Torfaen yn cydnabod mai un o'r agweddau allweddol o ran sicrhau darpariaeth lwyddiannus Gymraeg ei chyfrwng yw cadw disgyblion ar draws y pwyntiau pontio allweddol yn addysg statudol y dysgwr.

Ym mis Medi 2020, trosglwyddodd 101 o ddisgyblion o dair ysgol gynradd Gymraeg eu cyfrwng i Ysgol Gyfun Gwynllyw, yn cynrychioli 96.3% o'r disgyblion yn y garfan. Mae hyn yn cymharu gyda 94.2% o'r disgyblion sydd wedi pontio o ysgolion cynradd Cymraeg eu cyfrwng i'r ysgol uwchradd ym mis Medi 2019.

Mae gan yr Awdurdod Lleol berthynas gydweithredol dda gyda dau o'i Awdurdodau Lleol cyffiniol lle mae eu hysgolion cynradd Cymraeg eu cyfrwng nhw yn ffurfio rhan o glwstwr Ysgol Gyfun Gwynllyw. Gwneir ymdrechion arwyddocaol i gysylltu gyda a chadw disgyblion o fewn y ddau Awdurdod Lleol. Serch hynny, mae cyfraddau cadw o leoliadau cynradd Cymraeg eu cyfrwng i ddarpariaeth uwchradd Gymraeg ei chyfrwng yn amrywio yn un o'r awdurdodau gyda dirywiad arwyddocaol yn y niferoedd sy'n pontio ym mis Medi 2021.

| **Nifer/canran disgyblion CA2 a asesir drwy gyfrwng y Gymraeg fel ffactor o holl ddisgyblion CA2** | | | |
|---|---|---|---|
| **2017/18** | **2018/19** | **2019/20** | **2020/21** |
| 9.7%<br>103/1058 | 11.3%<br>121/1065 | 10.4%<br>112/1073 | Dd/b COVID |

| **Nifer/canran disgyblion CA3 a asesir drwy gyfrwng y Gymraeg fel ffactor o holl ddisgyblion CA3** | | | |
|---|---|---|---|
| **2017/18** | **2018/19** | **2019/20** | **2020/21** |
| 15.7%<br>168/1068 | 11.6%<br>129/1113 | 10.3%<br>114/1105 | Dd/b COVID |

Mae problem yn datblygu mewn cyfraddau trosglwyddo mewn perthynas â cheisiadau rhieni i drosglwyddo eu plant o leoliadau cyfrwng Cymraeg i rai Saesneg oherwydd y pandemig. Mae nifer y ceisiadau am le mewn ysgolion cynradd Cymraeg eu cyfrwng ar gyfer mis Medi 2021 hefyd i lawr o gymharu â blynyddoedd blaenorol. Mae'r awdurdod yn gweithio mewn cydweithrediad ag ysgolion a phartneriaid rhanbarthol i roddi sicrhad i rieni a dysgwyr ac atal lefel y ceisiadau.

**<u>Darpariaeth Gynradd</u>**

| **Ysgol** | **Nifer ar y Gofrestr Medi 2020 (ac eithrio disgyblion Meithrin)** | **Tymor yr Hydref '20 – trosglwyddiadau allan (* am y rhesymau a nodir isod)** | **Tymor y Gwanwyn '21 – trosglwyddiadau allan (* am y rhesymau a nodir isod)** | **Tymor yr Haf '21 – trosglwyddiadau allan (* am y rhesymau a nodir isod)** |
|---|---|---|---|---|
| Ysgol Panteg | 387 | 10 (4) | 13 (7) | 6 (4) |
| Ysgol Bryn Onnen | 180 | 6 (2) | 1 (1) | 2 (0) |
| Ysgol Gymraeg Cwmbrân | 303 | 3 (1) | 0 (0) | 0 (0) |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyfansymiau | 870 | 19 (7) | 14 (8) | 8 (4) | 41 (19 |

**Darpariaeth Uwchradd**

| | Nifer ar y Gofrestr Medi ’20 | Tymor yr Hydref ‘20 – trosglwyddiadau allan (* am y rhesymau a nodir isod) | Tymor y Gwanwyn ‘21 – trosglwyddiadau allan (* am y rhesymau a nodir isod) | Tymor yr Haf ‘21 – trosglwyddiadau allan (* am y rhesymau a nodir isod) |
|---|---|---|---|---|
| Ysgol Gyfun Gwynllyw | 762 | 6(1) | 2(1) | 7(1) |

**Gyda’i gilydd**

| Holl Ysgolion | Nifer ar y Gofrestr Medi ’20 | Tymor yr Hydref ‘20 – trosglwyddiadau allan (* am y rhesymau a nodir isod) | Tymor y Gwanwyn ‘21 – trosglwyddiadau allan (* am y rhesymau a nodir isod) | Tymor yr Haf ‘21 – trosglwyddiadau allan (* am y rhesymau a nodir isod) |
|---|---|---|---|---|
| | 1632 | 25(8) | 16(9) | 15(5) |

**Nodiadau**

1. *Mae’r niferoedd mewn cromfachau / % uchod yn cyfeirio at resymau penodol dros drosglwyddo: - Anhawster dysgu gyda’r iaith Gymraeg; Cael trafferthion gyda’r iaith Gymraeg; Anhapus yn dysgu Cymraeg; Bellach ddim eisiau dysgu Cymraeg.
2. Mae rhesymau eraill wedi eu rhoi am drosglwyddo ond nid ydynt wedi eu cyfyngu i’r canlynol (mae’r rhesymau a roddwyd hefyd i’w gweld ar gyfer trosglwyddo allan o Ysgolion Saesneg eu Cyfrwng):- Symud cartref/symud allan o’r ardal; Honiadau o fwlio; Rhwyddineb cael gofal plant; Anhapus yn yr ysgol; Er budd gorau’r plentyn; “Arall”.

**Lle rydym yn anelu at fod o fewn 5 mlynedd gyntaf y Cynllun hwn a sut rydym yn cynnig cyrraedd y pwynt hwnnw?**

Mae Torfaen fel Awdurdod Lleol yn ymroddedig i gynnal y cynnydd positif a wnaed cyn y pandemig o ran nifer y disgyblion sy’n dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg a mynd ymlaen i wella eu sgiliau Cymraeg drwy bontio’n llwyddiannus i gyfnod nesaf eu haddysg statudol. Ein dyhead yn y pen draw yw gweld yr holl ddisgyblion sy’n cychwyn eu haddysg statudol drwy gyfrwng y Gymraeg yn parhau i wneud hynny hyd at ddiwedd eu haddysg statudol. Rydym yn cychwyn o le cadarn fel y nodwyd uchod gyda 96.3% yn pontio yn 2020 ond mae heriau arwyddocaol o’n blaenau i sicrhau’r cynnydd mewn niferoedd o ddysgwyr o ben i ben yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg. Rydym yn benderfynol o hyd i gyrraedd ein targedau uchelgeisiol drwy barhau i weithio mewn cydweithrediad agos gyda’n Hawdurdodau Lleol cyffiniol, ein darparwyr cyfrwng Cymraeg ein hunain a rhieni a dysgwyr.

**Camau gweithredu i gyflawni’r targedau:**

- Adolygu lefelau cadw ar draws y pwyntiau pontio bob blwyddyn.
- Darparu buddsoddiad adnoddau arwyddocaol drwy'r Awdurdod Lleol a'r Consortia Rhanbarthol i gefnogi Ysgol Gyfun Gwynllyw o ran delio gyda'r materion a adnabuwyd mewn safonau a darpariaeth yn yr adroddiad Arolygiad Estyn diweddaraf i sicrhau cyflawni'r gwelliannau angenrheidiol.
- Arolygu trefniadau clwstwr rhanbarthol/Awdurdod Lleol, cytundebau partneriaeth (gan gynnwys trefniadau cludiant) a strategaethau marchnata/pontio.
- Parhau i weithio mewn partneriaeth ag ysgolion a'r consortia rhanbarthol i ddatblygu deunyddiau i gefnogi dysgu o bell/cyfunol i rieni i leihau nifer y ceisiadau i drosglwyddo.
- Arolygu rhaglen waith i'r dyfodol Fforwm Cymraeg mewn Addysg Torfaen i sicrhau ei fod yn cefnogi'r Cyngor i gyflawni ei ddyletswyddau statudol mewn perthynas â'r CSCA. Y rhaglen i gynnwys:
    - Adolygiad o ddeunyddiau hyrwyddo a chyfathrebu presennol yn seiliedig ar egwyddorion EAST (a yw'n Hawdd, Deniadol, Cymdeithasol ac Amserol) i sicrhau bod marchnata yn effeithiol yn defnyddio pob llwyfan sydd ar gael a deunydd adnoddau diweddaraf i farchnata manteision Addysg Gymraeg ei Chyfrwng i holl rieni a dysgwyr gan gynnwys y blynyddoedd cynnar.
    - Dull clwstwr a ariennir gan grant i sicrhau datblygu a chyflenwi continwwm dysgu 3-19 o ddysgu Cymraeg drwy'r cwricwlwm newydd i Gymru ar draws pob lleoliad/cyfnod Cymraeg eu cyfrwng.
- Sicrhau bod holl staff Awdurdod Lleol yn cael cyfleoedd datblygu proffesiynol addas mewn perthynas â chyfathrebu manteision y cynnig iaith Gymraeg yn effeithiol i rieni
- Gweithredu, fel rhan o gyflwyno datblygiad Gwynllyw, darpariaeth:
    - Dros 2-3 blynedd gyntaf y cynllun, cwmpasu a sicrhau cyllid ar gyfer darpariaeth SNRB Gymraeg ei chyfrwng ar gyfer dysgwyr ADY. (Bydd hyn yn agwedd bwysig o'r strategaeth farchnata gyda rhieni dysgwyr gydag anghenion dysgu ychwanegol). Penderfynu ar gwmpas y ddarpariaeth drochi yn Ysgol Gyfun Gwynllyw yn 2022/2023, gyda golwg ar sicrhau cymeradwyaeth a chyllid yn 2023/2024 ac yna gweithredu'r cynnig. Yn y cyfamser, ystyried darpariaeth drwy drefniadau cydweithredol gyda darpariaeth Awdurdodau Lleol cyffiniol.

      At hyn, mae'r ALl, drwy Grant Trochi LIC, wedi darparu cyllid arwyddocaol ar gyfer:
        - Caffael cymorth dysgu / cynorthwywyr dysgu ychwanegol yn seiliedig ar glwstwr o dair ysgol gynradd i ddarparu gwasanaeth trochi sgiliau iaith dwys neu ryddhau athrawon/HLTA/CCD presennol gyda sgiliau i gyflenwi'r gwaith trochi/ymyrraeth a gynlluniwyd. (Dau athro llawn amser ac un cynorthwyydd dysgu llawn amser ar draws y dair ysgol)
        - Caffael adnoddau ychwanegol arwyddocaol megis gemau iaith, rhifedd, ymarfer iaith a phatrymau i gefnogi datblygiad sgiliau iaith disgyblion
        - Uwchsgilio staff drwy ddarparu dysgu proffesiynol o gwmpas methodoleg trochi. Hyd yma, mae gennym staff cymorth ar draws y dair ysgol wedi eu hyfforddi gan Eirian Jones i ddefnyddio Tric a Chlic a holl staff cyfnod sylfaen ynghyd a phedwar o'r ysgol uwchradd.

- Sicrhau marchnata effeithiol iawn drwy gyfathrebu gyda rhieni ac adnoddau yn cael eu rhannu'n amserol gyda rhieni a dysgwyr cyn pwyntiau pontio allweddol.

**Lle rydym yn disgwyl bod ar ddiwedd ein Cynllun deng mlynedd?**

Dros gyfnod y cynllun hwn, rydym yn disgwyl gweld y capasiti ychwanegol ledled y fwrdeistref mewn lleoedd addysg cyfrwng Cymraeg cyn ysgol a chynradd yn cael eu dyrannu yn llawn i ddarparu'r cynnydd angenrheidiol mewn niferoedd y dysgwyr sy'n gwella eu sgiliau Cymraeg wrth drosglwyddo i gyfnod nesaf eu haddysg statudol.

**Data Allweddol**

| ENW'R YSGOL: | YSGOL GYFUN GWYNLLYW | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | | |
| **YSGOLION BWYDO** | | **2021** | **2022** | **2023** | **2024** | **2025** | **2026** | |
| | | | | | | | | |
| YSGOL BRYN ONNEN (TOR) | | 20 | 27 | 25 | 23 | 30 | 28 | |
| YSGOL GYMRAEG BRO HELYG (B G) | | 27 | 24 | 17 | 19 | 19 | 24 | |
| YSGOL GYMRAEG CWMBRAN (TOR) | | 40 | 36 | 41 | 42 | 39 | 32 | |
| YSGOL GYMRAEG IFOR HAEL (CAS)* | | 0 | 1 | 1 | 1 | 1 | 1 | |
| YSGOL PANTEG (TOR) | | 44 | 37 | 50 | 51 | 58 | 71 | |
| YSGOL GYMRAEG Y FENNI (MYN) | | 10 | 20 | 22 | 21 | 17 | 28 | |
| TU ALLAN I'R SIR / ERAILL | | 0 | 4 | 4 | 4 | 4 | 4 | |
| **CYFANSWM** | | **141** | **149** | **160** | **161** | **168** | **188** | |
| | | | | | | | | |
| | | | **BL7** | **BL8** | **BL9** | **BL10** | **BL11** | **A** |
| NAG GWIRIONEDDOL MEDI 2018 | | | 145 | 124 | 129 | 164 | 165 | 0 |
| NAG GWIRIONEDDOL MEDI 2019 | | | 160 | 139 | 114 | 115 | 161 | 0 |
| | | | | | | | | |
| NAG GWIRIONEDDOL MEDI 2020 | | | 137 | 150 | 131 | 113 | 115 | 0 |
| NAG A RAGWELIR MEDI 2021 | | | 141 | 137(130) | 150(136) | 131(130) | 113(111) | 0 |
| NAG A RAGWELIR MEDI 2022 | | | 149 | 166 | 137 | 150 | 131 | 0 |
| NAG A RAGWELIR MEDI 2023 | | | 160 | 149 | 166 | 137 | 150 | 0 |
| NAG A RAGWELIR MEDI 2024 | | | 161 | 160 | 149 | 166 | 137 | 0 |
| NAG A RAGWELIR MEDI 2025 | | | 168 | 161 | 160 | 149 | 166 | 0 |

*NAG – Nifer ar y Gofrestr*

Niferoedd a % o ddysgwyr yn parhau i wella eu sgiliau iaith Gymraeg wrth drosglwyddo o un cyfnod yn eu haddysg statudol i gyfnod arall

| 2022 - 2023 | | 2023 - 2024 | | 2024 - 2025 | | 2025 - 2026 | | 2026 - 2027 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 123 | 100% | 123 | 100% | 134 | 100% | 137 | 100% | 119 | 100% |
| 2027 - 2028 | | 2028 - 2029 | | 2029 - 2030 | | 2030 - 2031 | | 2031 - 2032 | |
| 115 | 96.3% | 137 | 100% | 137 | 100% | 167 | 100% | 167 | 100% |

## Canlyniad 4

## Mwy o ddysgwyr yn astudio ar gyfer cymwysterau a gaiff eu hasesu yn y Gymraeg (fel pwnc) a phynciau drwy gyfrwng y Gymraeg

**Lle rydyn ni nawr?**

Mae'r ddarpariaeth gwricwlaidd ar hyn o bryd yn cydymffurfio gyda mesurau LlC ond rydym yn aros am ymatebion pellach a chadarnhad gan LlC a Chymwysterau Cymru ar lefel genedlaethol o ran cymwysterau yn y dyfodol cyn y gallwn symud i gyfeiriad cynllunio penodol.

Proffil carfan CA4 Ysgol Gyfun Gwynllyw ar hyn o bryd yw:

| Grŵp Blwyddyn CA4 2019-2021 | **Gwir** nifer ar y gofrestr | | |
|---|---|---|---|
| | 2019 | 2020 | 2021 |
| Carfan Blwyddyn 10 | 115↓ | 113↓ | 130 |
| Carfan Blwyddyn 11 | 161 | 115↓ | 111↓ |

| Carfan Blwyddyn CA4 2022-2025 | Nifer **amcanestynedig** ar y gofrestr | | | |
|---|---|---|---|---|
| | 2022 | 2023 | 2024 | 2025 |
| Blwyddyn 10 | 150 | 137 | 166 | 149 |
| Carfan Blwyddyn 11 | 131 | 150 | 137 | 166 |

Mae tueddiadau mewn ffigurau derbyn yn dangos gostyngiad yn y gofrestr ysgol a nifer myfyrwyr 14-16 oed yn astudio ar gyfer cymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae dau brif ffactor yn sylfaen i hyn – yr ysgol yn cael ei dodi mewn categori statudol o fesurau arbennig ar ôl yr Arolygiad Estyn diweddaraf ac ysgol uwchradd eginol Gymraeg ei chyfrwng 'newydd' yng Nghasnewydd (Gwent Is Coed) sydd nawr yn darparu cwricwlwm CA4.
Mae Ysgol Gyfun Gwynllyw yn elwa o fuddsoddiad cyfalaf arwyddocaol dan raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif y Cyngor, gyda darpariaeth wedi ei chynllunio ar gyfer ysgol 3-19 a darpariaeth feithrin. Mae'r gwaith wedi cychwyn ar y safle ac mae i fod i'w gwblhau yn y gwanwyn, 2022.

| Ysgol Gyfun Gwynllyw 6ed Dosbarth | Gwir nifer ar y gofrestr | | |
|---|---|---|---|
| | 2019 | 2020 | 2021 |
| | 130↓ | 116↓ | 69↓ |

Mae tueddiad o ostyngiad yn y nifer o fyfyrwyr 16-19 oed sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg, gan adlewyrchu'r gostyngiad yn niferoedd y myfyrwyr yn CA4.

**Disgyblion yn astudio'r Gymraeg fel pwnc**

Mae polisi iaith Torfaen wedi arwain at gynnydd cryf mewn darpariaeth gynradd Gymraeg ei chyfrwng i ddarpariaeth uwchradd yn Ysgol Gyfun Gwynllyw i astudio'r Gymraeg ar lefel arholiad. Mae cytundeb partneriaeth Torfaen gyda Blaenau Gwent a Sir Fynwy wedi gweld cyfraddau pontio cynyddol amrywiol gyda thueddiadau yn dirywio o Ysgol y Fenni yn Y Fenni.

**Nifer a chanrannau disgyblion yn astudio'r fanyleb iaith gyntaf yn 2020/2021**

CA4 – Yn yr haf 2021, astudiodd 9.3% ar gyfer cymhwyster TGAU iaith gyntaf (101 o ddisgyblion) CA5 – Yn yr haf 2021, astudiodd 6 disgybl neu 5.9% (a oedd yn flaenorol yn astudio'r Gymraeg fel iaith gyntaf) y Gymraeg fel pwnc Lefel A.

**Nifer a chanrannau disgyblion yn astudio'r fanyleb ail iaith yn 2020/2021**

CA4 – Yn yr haf 2021, astudiodd 81.7% ar gyfer cymhwyster TGAU ail iaith (893 o ddisgyblion).

**Pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg**

CA4 – Yn yr haf 2021, roedd 9.3% o ddisgyblion Torfaen wedi llwyddo mewn astudio ystod eang o 5 cymhwyster TGAU neu fwy drwy gyfrwng y Gymraeg.

CA5 – Yn yr haf 2021, cafodd disgyblion Torfaen 369 o gymwysterau wedi eu dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg gan gynnwys 132 o gymwysterau Bagloriaeth Cymru.

**Darpariaeth ôl-16 newydd Torfaen mewn cydweithrediad gyda darpariaeth Coleg Gwent ym Mharth Dysgu Torfaen (PDT).**

Mae Coleg Gwent yn cofnodi iaith dysgu ac asesu ar gyfer pob dysgwr gan ddefnyddio'r categorïau canlynol:

B3: Ychydig o ddysgu cyfrwng Cymraeg
B2: Swm arwyddocaol o ddysgu cyfrwng Cymraeg
B1: Dysgu wedi ei gwblhau mewn cyd-destun dwyieithog
C1: Dysgu wedi ei gwblhau mewn cyd-destun cyfrwng Cymraeg

Mae'r coleg wedi cael peth llwyddiant mewn blynyddoedd diweddar o ran cynyddu nifer y dysgwyr sy'n syrthio i gategorïau B1 a B2 yn arbennig. Serch hynny, mae'r niferoedd yn gymharol isel o hyd, ac mae'r coleg yn uchelgeisiol yn ei weledigaeth i gynyddu'r niferoedd hyn dros y 10 mlynedd nesaf.

Mae'r data diweddaraf (nifer dysgwyr yn 2020-2021) fel a ganlyn:

B3: 276
B2: 93
B1: 144
C1: 0

Cyfanswm dysgwyr (Saesneg, Cymraeg a Dwyieithog) yw 9303, gan wneud dysgu cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn 6% o garfan gyfan y dysgwyr.

**Lle rydym yn anelu at fod o fewn 5 mlynedd gyntaf y Cynllun hwn a sut rydym yn cynnig cyrraedd y pwynt hwnnw?**

Mae Cyngor Torfaen yn gwbl ymroddedig i gynyddu canran y dysgwyr 15 oed a throsodd sy'n astudio ar gyfer cymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg. Y nod tymor canol i'r hirdymor fydd adeiladu ar y newidiadau i'r capasiti/ddarpariaeth ar lefel gynradd drwy ychwanegiad y cyfnod cynradd yn Ysgol Gyfun Gwynllyw i gynyddu yn arwyddocaol y nifer o ddysgwyr sy'n pontio i astudio ar gyfer cymwysterau a asesir yn y Gymraeg (fel pwnc) a phynciau drwy gyfrwng y Gymraeg yn CA 4 ac yna yn CA5. At hyn, yn y tymor byr, mae'r cyngor yn parhau i ddarparu cymorth arwyddocaol i ddelio gyda'r argymhellion yn adroddiad arolygiad Ysgol

Gyfun Gwynllyw i sicrhau'r cynnydd sydd ei angen a sicrhau rhieni a dysgwyr i wella cyfraddau cadw.

Mae'r Cyngor yn ymroddedig i gefnogi'r ysgol i sicrhau bod nifer y cyrsiau TGAU sydd ar gael i ddysgwyr drwy gyfrwng y Gymraeg yn cynyddu, a bydd yn gweithredu i gael gwaith partneriaeth rhwng yr ysgol, Coleg Gwent ac ysgolion uwchradd Cymraeg eu cyfrwng yn y rhanbarth i ddatblygu cyrsiau galwedigaethol Cymraeg eu cyfrwng i ddisgyblion.

**Camau gweithredu i gyflawni'r targedau:**

Bydd yr awdurdod lleol yn parhau i gefnogi gwaith Ysgol Gyfun Gwynllyw a PDT i gydgysylltu darpariaeth y Gymraeg o Flwyddyn 10 drwy:

- Ddatblygu ymhellach rwydweithiau proffesiynol ar y cyd ag arweinwyr rhanbarthol ar gyfer y Gymraeg er mwyn sefydlu cymorth a chyfarwyddyd o ansawdd da
- Dros ddwy flynedd gyntaf y cynllun newydd, arolygu, ar y cyd ag Ysgol Gyfun Gwynllyw a darparwyr eraill Cymraeg eu cyfrwng yn y consortiwm, ddull rhanbarthol tuag at ddarpariaeth ôl-16 yn y Gymraeg (YGCRh, Y Gwyndy, Ysgol Gyfun Gwynllyw (Torfaen) ac Ysgol Gyfun Gwent Is Coed (Casnewydd) i ddatblygu, hyrwyddo llwybrau dysgu 14-19 effeithiol drwy gyfrwng y Gymraeg i gynyddu niferoedd pontio.
    - Yr arolwg i ystyried y cwricwlwm a gynigir a chynnwys datblygiad darpariaeth well, ar y cyd, drwy ddulliau dysgu cyfunol. At hyn, ar ôl symudiad y Cyngor i ddarpariaeth ôl-16 drydyddol o fis Medi 2020, ystyried ymarferoldeb cyd-ddarpariaeth/darpariaeth ychwanegol gydag YGG drwy gyfrwng y Gymraeg ar draws y ddau sefydliad.
    - Ymestyn y cynnig cwricwlaidd i gynnwys mwy o amrywiaeth mewn cymwysterau galwedigaethol Lefel 2 a 3 (yn dibynnu ar eu hargaeledd drwy gyfrwng y Gymraeg)
    - Ystyried defnyddio'r system e-sgol i gefnogi pynciau TGAU a gwella'r ddewislen e-sgol mewn perthynas a phynciau Lefel A Cymraeg eu cyfrwng.

- Dros 2 flynedd gyntaf y cynllun, adolygu gydag ysgolion y trefniadau cefnogi presennol ar gyfer Cymraeg a ddysgir mewn ysgolion Saesneg eu cyfrwng, gan gynnwys pynciau galwedigaethol, a dyfeisio cynllun i gefnogi datblygiad pellach.

- Defnyddio adnoddau, staff allweddol o'r awdurdod lleol a deunyddiau hyrwyddo gan Lywodraeth Cymru i annog continwwm iaith a dysgu ar draws pob cam cynyddol i hybu hyder dysgwyr ac i sicrhau rhieni.

- Darparu buddsoddiad adnoddau arwyddocaol drwy'r Awdurdod Lleol a Chonsortia Rhanbarthol i gefnogi'r ysgol wrth ddelio â phroblemau a adnabuwyd mewn perthynas â safonau a darpariaeth yn adroddiad arolygiad diweddaraf Estyn a chyflawni'r gwelliannau angenrheidiol yn erbyn blaenoriaethau yn y Cynllun Gweithredu ar Ôl Arolygiad.

- Sicrhau bod darpariaeth ar gyfer dysgwyr 14-16 oed yn Ysgol Gyfun Gwynllyw yn cydymffurfio gyda'r Cwricwlwm newydd ar gyfer Cymru, er enghraifft, dileu'r gwahaniaethu rhwng TGAU Cymraeg ail iaith a Chymraeg iaith gyntaf.

- Sicrhau bod holl leoliadau Saesneg eu cyfrwng yn cydymffurfio gyda rheoliadau statudol mewn perthynas â darpariaeth ar gyfer Cymraeg ail iaith.

- Sicrhau cefnogaeth i'r athrawon hynny nad oes ganddynt yr hyder ieithyddol i fynychu'r cwrs sabothol a mynychu cyfleoedd dysgu proffesiynol perthnasol drwy'r consortia rhanbarthol.
- Sicrhau bod prentisiaethau a swyddi yn y sir yn nodi pwysigrwydd/yr angen am y Gymraeg.
- Ail-sefydlu a chryfhau rhwydwaith penaethiaid adrannau
- Sicrhau cyfathrebu effeithiol iawn gyda rhieni a bod deunyddiau marchnata yn cael eu rhannu yn amserol gyda rhieni a dysgwyr, er enghraifft rhannu fideos Llywodraeth Cymru - https://www.youtube.com/cymraeg yn ystod nosweithiau opsiynau.

**Parth Dysgu Torfaen Ôl-16**

Ar ôl llyw gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, bydd y coleg yn parhau i ganolbwyntio ar sefydlu unedau dwyieithog llawn o fewn y prif gymwysterau mewn meysydd blaenoriaeth y cwricwlwm dwyieithog. Yn y 5 mlynedd gyntaf, bydd y ffocws ar ofal plant, iechyd a gofal cymdeithasol a gwasanaethau cyhoeddus. Bydd y Coleg yn cyflogi staff newydd (neu'n gwella sgiliau staff presennol) i gyflwyno unedau dwyieithog yn y tri maes hwn ar y cwricwlwm.

Y targedau ar gyfer cyflawniad dwyieithog yn y 5 mlynedd nesaf yw:

B3: 2000 (bydd y coleg yn datblygu pecyn digidol a fydd yn galluogi i fwyafrif dysgwyr galwedigaethol llawn amser gyflawni o leiaf B3)

B2: 400

B1: 600

C1: (Bydd y coleg yn canolbwyntio ar sefydlu unedau Cymraeg a dwyieithog o fewn prif raglenni yn hytrach na chyflwyno cyrsiau llawn Cymraeg eu cyfrwng.)

**Lle rydym yn disgwyl bod ar ddiwedd ein Cynllun deng mlynedd?**

Rydym yn disgwyl gweld canran y cymwysterau a astudir drwy gyfrwng y Gymraeg yn cynyddu'n raddol flwyddyn ar ôl blwyddyn nes byddwn wedi cwrdd â neu'n gwneud yn well na'n targed. Wrth wneud hyn, byddwn hefyd yn gweld cynnydd arwyddocaol yn y defnydd o Gymraeg achlysurol a'r gallu i gyfathrebu'n effeithiol yn y Gymraeg yn y boblogaeth 5–19 oed.

Bydd y coleg yn parhau i ddatblygu modiwlau dwyieithog ar draws y saith maes blaenoriaeth arall (7 maes cwricwlwm i gyd). Bydd hyn yn cynnwys datblygu adnoddau yn ychwanegol at recriwtio staff newydd yn unol ag Amcan 7.

Y targedau ar gyfer cyflawniad dwyieithog ymhen 10 mlynedd:

B3: 3000

B2: 500

B1: 1000

C1: (Bydd y coleg yn canolbwyntio ar sefydlu unedau Cymraeg a dwyieithog o fewn prif raglenni yn hytrach na chyflwyno cyrsiau llawn Cymraeg eu cyfrwng, oni fo cyfle newydd yn codi. Caiff hyn ei werthuso bob blwyddyn)

**Data Allweddol**

Wrth gyfrifo'r amcanestyniadau hyn ar gyfer dysgwyr CA4, rydym wedi defnyddio cyfraddau pontio o Bl6 i Bl7 dros amser mewn perthynas ag ysgol gynradd pob clwstwr unigol, pa bynnag Awdurdod Lleol. Y dybiaeth a wneir yw y bydd ffigurau pontio, o 2030, yn symud tuag at 100% o'r carfanau unigol.

Niferoedd a % o ddysgwyr sy'n astudio ar gyfer cymwysterau a asesir yn y Gymraeg (fel pwnc) a phynciau drwy gyfrwng y Gymraeg

| 2022 - 2023 | | 2023 - 2024 | | 2024 - 2025 | | 2025 - 2026 | | 2026 - 2027 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 131 | 12.0% | 150 | 13.3% | 137 | 12.3% | 166 | 14.8% | 149 | 13.3% |
| **2027 - 2028** | | **2028 - 2029** | | **2029 - 2030** | | **2030 - 2031** | | **2031 - 2032** | |
| 168 | 15.0% | 175 | 15.6% | 180 | 16% | 186 | 16.8% | 186 | 16.8% |

## Canlyniad 5

## Mwy o gyfle i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destunau gwahanol yn yr ysgol

**Lle rydyn ni nawr?**

**Siarter Iaith Cynradd:**
Torfaen: 100% o ysgolion wedi derbyn gwobr Arian y Siarter

**Siarter Iaith Uwchradd:**
Torfaen: Mae Ysgol Gyfun Gwynllyw yn gweithredu fframwaith y Siarter (Cam 1 o 5: fframwaith gwerthuso Siarter EAS ar gyfer ysgolion uwchradd)

**Cymraeg Campus Cynradd:**
Torfaen: 86% o ysgolion wedi cael statws gwobr Efydd ac yn gweithio tuag at Arian
14% yn gweithio tuag at Efydd

**Torfaen: Dwyieithrwydd Uwchradd**
Mae Cymraeg Bob Dydd yr Urdd yn rhaglen sy'n cefnogi'r rhaglen Siarter Iaith yn ffurfiol yn ein pum ysgol uwchradd Saesneg eu cyfrwng.

**Gweithgareddau presennol:**

- Rhwydweithiau cydgysylltydd Siarter Iaith gan gynnwys rhwydweithiau clwstwr yn cynnwys partneriaid cymunedol, megis yr Urdd a Mentrau Iaith
- Cyfarfodydd rhwydwaith cydgysylltwyr yr iaith Gymraeg (Saesneg eu cyfrwng) gan gynnwys canolbwyntio ar Gymraeg Campus
- Cymorth wedi'i deilwra i ysgolion yn unol â'r dull Gwelliannau Ysgol Rhanbarthol
- Cyfleoedd cefnogi ysgol i ysgol a rhannu arferion gorau
- Cyfleoedd dysgu proffesiynol ar gyfer ysgolion Saesneg eu cyfrwng mewn perthynas â disgwyliadau gwobrau Arian ac Efydd a dulliau cyflwyno ymarferol (cydamserol ac anghydamserol).
- Adnoddau i gefnogi ysgolion cyfrwng Cymraeg a Saesneg ar gael ar EAS Thinqi a rhwydweithiau Hwb rhanbarthol a chenedlaethol ar gyfer y Siarter Iaith/Cymraeg Campus

- Oedi mewn cynnydd oherwydd Covid, yn enwedig mewn ysgolion Saesneg eu cyfrwng. Cyfle ar gyfer cymorth wedi'i deilwra ar gael i ysgolion ar ddechrau eu taith Cymraeg Campus, haf 2021. Cyfle i bob ysgol ystyried y dilysiad a gynigiwyd hefyd yn yr haf 2021.

**Lle rydym yn anelu at fod o fewn 5 mlynedd gyntaf y Cynllun hwn a sut rydym yn cynnig cyrraedd y pwynt hwnnw?**

**Siarter Iaith Cynradd:**
Torfaen: 100% o ysgolion presennol yn cyflawni statws Aur
Dull newydd ysgolion cynradd / 3-19 fel y cytunwyd: Efydd / Arian wedi eu cyflawni

**Siarter Iaith Uwchradd:**
Torfaen: YGG Cynnal (Cam 4 o 5: fframwaith gwerthuso Siarter EAS ar gyfer ysgolion uwchradd)

**Cymraeg Campus Cynradd:**
Torfaen: 70% Aur, 30% Arian
Mae'r Gymraeg yn nodwedd o bob agwedd ar fywyd yr ysgol ac yn annatod o ran cyfoethogi a chynnig cyfleoedd profiadol ar draws y cwricwlwm (fel y mynegwyd yn CfW).

**Torfaen: Dwyieithrwydd Uwchradd**
Ysgolion uwchradd yn gweithio gyda rhaglen Cymraeg Bob Dydd yr Urdd. Ysgolion uwchradd yn gweithio gyda chlystyrau i gael cynnydd ar ddwyieithrwydd, gan adeiladu ar lwyddiannau Cymraeg Campus yn y cyfnod cynradd.

**Camau gweithredu i gyflawni'r targedau:**
- Darparu cyfleoedd dysgu proffesiynol i Uwch Arweinwyr, gan gynnwys ffocws ar ddatblygiad strategol Cymraeg Campus mewn ysgolion Saesneg eu cyfrwng
- Rhwydweithiau ar gyfer cydgysylltwyr (ysgolion Cymraeg a Saesneg eu cyfrwng)
- Rhoi cymorth wedi'i deilwra i ysgolion yn unol â'r dull Gwelliannau Ysgol Rhanbarthol
- Cefnogi ysgolion i ystyried datblygu Cymraeg Campus fel rhan o'u gwerthusiad ysgol ehangach gyda hunan-werthusiad yn bwydo gwybodaeth i'r broses ddilysu
- Codi proffil a marchnata'r Siarter Iaith / Cymraeg Campus drwy'r cyfryngau cymdeithasol
- EAS i ddiweddaru Awdurdodau Lleol ar ysgolion yn cael gwobrau newydd er mwyn i'r awdurdod lleol allu cefnogi llwyddiant a hyrwyddo cynnydd cyflymach ar draws ysgolion yr ALl
- Cefnogi gwaith clwstwr effeithiol gan weithio drwy arweinwyr Dysgu Proffesiynol ar gyfer y Gymraeg
- Hyrwyddo'r cyfleoedd sydd ar gael i ddysgwyr i gysylltu ag asiantaethau eraill megis Urdd Gobaith Cymru a Menter Iaith mewn cyfarfodydd rhwydweithio a chynyddu presenoldeb gwahanol sefydliadau mewn cyfarfodydd lle bo modd
- Sefydlu cydweithredu manteisiol ar draws ysgolion Cymraeg a Saesneg eu cyfrwng
- Parhau i rannu adnoddau ac arferion gorau drwy lwyfannau Hwb rhanbarthol a chenedlaethol a rhwydweithiau cymorth LNS.
- Sicrhau ymgysylltiad gyda chymorth a chyfarwyddyd dysgu proffesiynol ac wedi'i deilwra drwy EAS i ysgolion i'w helpu i wireddu'r Cwricwlwm ar gyfer Cymru.
- Trafod ar lefel ranbarthol ym mlwyddyn gyntaf y cynllun newydd yr opsiynau ar gyfer ymarfer astudiaeth â ffocws/astudiaeth gwmpasu i fapio faint o amser a ddyrennir mewn

ysgolion ar gyfer gweithgareddau ysgol (yn y dosbarth a'r tu allan) sy'n atgyfnerthu sgiliau iaith Gymraeg.

**Lle'r rydym yn disgwyl bod ar ddiwedd ein Cynllun deng mlynedd?**

- Yn ystod oes y cynllun deng mlynedd, wedi ei alinio gyda gweithrediad llwyddiannus y Cwricwlwm ar gyfer Cymru ac elfennau o'r pedwar pwrpas (bydd ein holl blant a phobl ifanc yn ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n gallu cyfathrebu'n effeithiol mewn gwahanol leoliadau a sefyllfaoedd, gan ddefnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg, ynghyd â bydd ein plant a'n pobl ifanc yn ddinasyddion moesegol, gwybodus sy'n gwybod am eu diwylliant, eu cymuned, eu cymdeithas a'r byd, nawr ac yn y gorffennol), rydym yn disgwyl gweld mwy o hyder a balchder ymhlith disgyblion yn eu gallu i gyfathrebu yn y Gymraeg a'r Saesneg ac amlieithrwydd yn gyffredinol.
- Ar ddiwedd yr arolwg 5 mlynedd, mae gan ysgolion Cymraeg eu cyfrwng sydd wedi cael y wobr aur hyder llawn i hunan-werthuso yn gadarn eu darpariaeth ar gyfer gweithredu'r Siarter Iaith ac maent yn gyfrifol am rannu eu harferion da yn annibynnol wrth ddatblygu'r Siarter gydag eraill.
- Pob ysgol a sefydlwyd rhwng yr arolwg 5 mlynedd a diwedd y cylch deng mlynedd yn gweithredu'r Siarter Iaith ac yn anelu i gael gwobr sy'n adlewyrchu cynnydd priodol yn unol â dyddiad sefydlu'r ysgol.
- Ar gyfer Cymraeg Campus, cynnal disgwyliadau gwobr aur a safonau uchel mewn ysgolion sydd wedi ennill y wobr gan gynnwys sicrhau proses effeithiol i werthuso, monitro a chynllunio ar gyfer cynnal safonau neu wella.
- Rhannu arferion gorau yn helaeth rhwng ac ar draws ysgolion, gydag ysgolion yn cefnogi ei gilydd yn annibynnol gyda'u gwerthusiad o gyflwyniad y rhaglen.
- Cydweithrediad llwyddiannus wedi ei sefydlu'n dda ar draws ysgolion Cymraeg a Saesneg eu cyfrwng

## Canlyniad 6

**Cynnydd yn y ddarpariaeth o addysg Gymraeg ei chyfrwng ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) (yn unol â'r dyletswyddau a bennwyd gan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018**

**Lle rydyn ni nawr?**

Mae ystod eang o ddarpariaeth ADY ar gael ym mhob un o'n hysgolion Cymraeg eu cyfrwng. Mae gan bob ysgol ddealltwriaeth glir o'r systemau cymorth sydd ar gael gan yr ALI a'r amrediad o gymorth "cynhwysol" i ddysgwyr. Mae cefnogaeth effeithiol i'r ddeddf ADY newydd ar waith ac mae gan ysgolion fynediad at ystod o adnoddau iaith Gymraeg pwrpasol.

Mae'r ALI yn parhau i gyflogi staff arbenigol sy'n siaradwyr Cymraeg ym mhob un o'n timau. Rydym yn parhau i wynebu heriau arwyddocaol o ran cael staff sy'n siaradwyr Cymraeg mewn rolau arbenigol.

| |
|---|
| Ar hyn o bryd nid oes gennym leoliadau adnoddau Cymraeg eu cyfrwng ar gyfer ADY. Mae'r ddarpariaeth bresennol yn cynnwys ysgol arbennig, UCD a nifer o leoliadau adnoddau anghenion arbennig wedi eu cysylltu gydag ysgolion Saesneg eu cyfrwng. Ar hyn o bryd mae dysgwyr sydd wedi eu hadnabod fel rhai sydd angen cymorth ychwanegol ac ymyrraeth yn ei dderbyn drwy gyfrwng y Saesneg. Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod bod hyn yn creu problemau, yn enwedig mewn meysydd fel Dyslecsia. |
| **Lle rydym yn anelu at fod o fewn 5 mlynedd gyntaf y Cynllun hwn a sut ydym yn cynnig cyrraedd y pwynt hwnnw?** |
| **Camau gweithredu i gyflawni'r targedau:**<br><br>Bydd y cynnydd sy'n deillio yn y niferoedd o ddysgwyr sy'n cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg oherwydd y camau yn y cynllun hwn, ynghyd â'r ddyletswydd a roddir ar yr Awdurdod Lleol drwy Ddeddf ADY 2018, yn ei gwneud yn ofynnol i Dorfaen arolygu sut mae'r awdurdod yn cyflenwi ei gefnogaeth i blant a phobl ifanc gydag anghenion dysgu ychwanegol, gan gynnwys darpariaeth ar gyfer dysgwyr Cymraeg eu cyfrwng i sicrhau capasiti digonol ac alinio gyda'r cod newydd.<br>Byddwn yn:<br>• Ymgymryd ag arolwg o angen bob dwy flynedd mewn perthynas â dysgwyr ADY Cymraeg eu cyfrwng<br>• Sicrhau digonolrwydd ac ansawdd darpariaeth i ddiwallu'r angen a adnabuwyd<br>• Bydd yr ALI yn ymgymryd ag arolwg strategol o'r holl ddarpariaeth ADY yn y fwrdeistref yn 2022-23. Caiff y gwaith hwn ei gefnogi gan Grŵp presennol Strategaeth ADY Penaethiaid a'r grŵp Penaethiaid Cyfrwng Cymraeg. Bydd yr arolwg yn adnabod anghenion presennol ac i'r dyfodol a rhagwelir y bydd yn arwain at:<br>    o yr angen i sefydlu darpariaeth benodol ADY Gymraeg ei chyfrwng<br>    o graddfa, gofynion staff a'r lleoliad gorau ar gyfer y ddarpariaeth newydd<br>    o yr amserlen i gyflawni hyn – dim hwyrach na phum mlynedd gyntaf y cynllun, ond bydd hyn yn ddarostyngedig i gyllid ac anghenion staff yn ychwanegol at yr ymgynghoriadau lleol a statudol gofynnol.<br>• Gweithio ar y cyd â gwasanaethau AD y Cyngor i flaenoriaethu lle'n briodol, recriwtio ymgeiswyr gyda'r cymwysterau addas gyda'r sgiliau iaith Gymraeg angenrheidiol i gynyddu nifer y staff i gefnogi ein disgyblion o 3 i 19 oed, (gan gynnwys y rhai hynny mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol).<br>• Sicrhau bod darpariaeth ADY effeithiol Gymraeg ei chyfrwng yn cael ei chynnal wrth i ddisgyblion bontio rhwng cyfnodau.<br>• Sicrhau bod adnoddau cwricwlwm Cymraeg ei gyfrwng yn darparu'n effeithiol ar gyfer personau gydag ADY gan gynnwys adnoddau ADY penodol Cymraeg a adnabuwyd drwy waith clwstwr ledled y rhanbarth mewn perthynas a thrawsnewid ADY a chyfieithu'r asesiadau nad oeddynt ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg.<br>• Gweithio ar y cyd â gwasanaethau Awdurdodau Lleol cyffiniol drwy gyfrwng cytundebau partneriaeth i ddatblygu system cymorth dwyieithog.<br>• Sicrhau bod darpariaeth ar gael ar gyfer gohebiaeth, apeliadau, cyfarfodydd ac ati, i'w cynnal drwy gyfrwng y Gymraeg os gofynnir am hynny. Mae angen ystyried sicrhau aelodaeth holl baneli cysylltiedig ag ADY a'r capasiti i gysylltu â rhieni drwy gyfrwng y Gymraeg. |

- Sicrhau bod holl rieni plant gydag ADY sy’n ystyried addysg Gymraeg ei chyfrwng yn derbyn gwybodaeth ddwyieithog o ansawdd uchel i gefnogi eu cais, gan gynnwys darpariaeth a chamau cynnydd.

**Lle rydyn ni’n disgwyl bod ar ddiwedd ein Cynllun deng mlynedd?**

Erbyn diwedd y cynllun 10 mlynedd:

- Mae nifer yr athrawon a staff yr Awdurdod Lleol gyda’r cymwysterau a’r profiad priodol yn gallu cyflwyno cymorth ac ymyrraeth ddwyieithog yn llwyddiannus i bob dysgwr a adnabuwyd.
- Mae ehangder ac ansawdd cymorth ADY drwy gyfrwng y Gymraeg yn gymaradwy i un dysgwyr mewn lleoliadau Saesneg eu cyfrwng.
- Sefydlu darpariaeth CAAA Gymraeg ei chyfrwng lwyddiannus o fewn y fwrdeistref.

## Canlyniad 7

**Cynyddu nifer y staff dysgu sy’n gallu dysgu Cymraeg (fel pwnc) a dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg**

**Lle rydyn ni nawr?**

Mae'n hanfodol cydnabod bod darparu staff gyda'r cymwysterau priodol (gan gynnwys athrawon, staff cymorth a gweithwyr yr Awdurdod Lleol) gyda'r sgiliau Cymraeg angenrheidiol yn rhwystr genedlaethol ac yn arbennig yn lleol ac fel gyda holl Awdurdodau Lleol eraill, mae Torfaen yn parhau i bwyso am newid ar lefel genedlaethol drwy ADEW i ddelio gyda'r newidiadau gofynnol.

**Proffil iaith staff Torfaen**

Siaradwyr Cymraeg (SWAC 2021):

**Cyfnod Uwchradd:**

| | Nifer yr athrawon | Nifer y staff |
|---|---|---|
| Dim sgiliau iaith Gymraeg | 191 | 336 |
| Lefel Fynediad | 55 | 39 |
| Lefel Sylfaenol | 17 | 10 |
| Lefel Ganolraddol | 8 | 6 |
| Lefel Uwch | 11 | 3 |
| Lefel Hyfedrus | 67 | 94 |
| Dim gwybodaeth eto | 1 | 4 |
| **Cyfanswm** | **350** | **492** |

**Cyfnod Cynradd:**

| | Nifer yr athrawon | Nifer y staff |
|---|---|---|
| Dim sgiliau iaith Gymraeg | 2 | 152 |
| Lefel Fynediad | 90 | 320 |
| Lefel Sylfaenol | 153 | 260 |
| Lefel Ganolraddol | 70 | 90 |
| Lefel Uwch | 37 | 68 |
| Lefel Hyfedrus | 23 | 30 |
| Dim gwybodaeth eto | 20 | 64 |
| **Cyfanswm** | **395** | **984** |

**Arbennig/UCD:**

| | Nifer yr athrawon | Nifer y staff |
|---|---|---|
| Dim sgiliau iaith Gymraeg | 10 | 53 |
| Lefel Fynediad | 6 | 28 |
| Lefel Sylfaenol | 6 | 13 |
| Lefel Ganolraddol | 1 | 1 |
| Lefel Uwch | 1 | 2 |
| Lefel Hyfedrus | 0 | 0 |
| Dim gwybodaeth eto | 2 | 20 |
| **Cyfanswm** | **26** | **117** |

I grynhoi, yn Nhorfaen dim ond 218 (28.3%) o athrawon sydd â sgiliau iaith Gymraeg ar lefel ganolraddol neu uwch a dim ond 139 (18%) sydd â sgiliau iaith Gymraeg ar lefel uwch ac i fyny.

**Coleg Gwent Ôl-16**:

| | **Staff Academaidd** |
|---|---|
| Dim sgiliau iaith Gymraeg | 553 |
| Lefel Fynediad | 0 |
| Lefel Sylfaenol | 0 |
| Lefel Ganolraddol | 23 |
| Lefel Uwch | 14 |
| Lefel Hyfedrus | 6 |
| Dim gwybodaeth eto | 0 |
| **Cyfanswm** | **596** |

**Y gallu i ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ond ddim yn gwneud hynny ar hyn o bryd**

| **Sector Cynradd** | **Nifer yr athrawon** | **Nifer y staff** |
|---|---|---|
| Dysgu/gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg yn y swydd bresennol | 53 | 109 |
| Gallu dysgu/gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg ond ddim yn gwneud hynny ar hyn o bryd | 6 | 46 |
| Ddim yn gallu dysgu/gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg | 24 | 434 |
| Dysgu Cymraeg fel pwnc yn unig (*ar gyfer athrawon sy’n dysgu hyd at CC blwyddyn 6 yn unig) | 313 | 394 |
| **Cyfanswm** | 396 | 983 |

| **Sector Uwchradd** | **Nifer yr athrawon** | **Nifer y staff** |
|---|---|---|
| Dysgu/gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg yn y swydd bresennol | 72 | 99 |
| Gallu dysgu/gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg ond ddim yn gwneud hynny ar hyn o bryd | 15 | 18 |
| Ddim yn gallu dysgu/gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg | 263 | 470 |
| Dysgu Cymraeg fel pwnc yn unig (*ar gyfer athrawon sy’n dysgu hyd at CC blwyddyn 6 yn unig) | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **350** | **587** |

| **Arbennig/UCD** | **Nifer yr athrawon** | **Nifer y staff** |
|---|---|---|
| Dysgu/gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg yn y swydd bresennol | 0 | 0 |

| | | |
|---|---|---|
| Gallu dysgu/gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg ond ddim yn gwneud hynny ar hyn o bryd | 1 | 2 |
| Ddim yn gallu dysgu/gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg | 20 | 110 |
| Dysgu Cymraeg fel pwnc yn unig (*ar gyfer athrawon sy'n dysgu hyd at CC blwyddyn 6 yn unig) | 5 | 5 |
| **Cyfanswm** | **26** | **117** |

I grynhoi, yn Nhorfaen, dim ond 125 (16.2%) o athrawon sy'n dysgu/gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg yn eu swydd bresennol.

**Cynllun sabothol**

Cynllun Sabothol: Rhaglen Cymraeg mewn Blwyddyn (14 lle ar gael i bob rhanbarth bob blwyddyn). Yn Nhorfaen rydym wedi parhau i gael ychydig o gyfranogwyr yn y cynllun sabothol.

| Blwyddyn | Math o gwrs | Ysgol |
|---|---|---|
| 2018-19 | Cymraeg mewn Blwyddyn | Ysgol Gatholig Dewi Sant |
| 2019-20 | Lefel Mynediad | Ysgol Gynradd George Street |
| 2019-20 | Lefel Mynediad | Ysgol Gynradd Woodlands |
| 2019-20 | Lefel Mynediad | Ysgol Gynradd Our Lady of the Angels |
| 2019-20 | Lefel Mynediad | Ysgol Gynradd Llantarnam |
| 2019-20 | Lefel Mynediad | Ysgol Gynradd George Street |
| 2020-21 | Cymraeg mewn Blwyddyn | Ysgol Gynradd Coed Efa |

Ar hyn o bryd, mae EAS yn cefnogi graddedigion Cymraeg mewn Blwyddyn i weithredu prosiectau lefel ysgol a chlwstwr, gan gynnwys datblygu deunyddiau enghreifftiol a dulliau o gyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru, gan alluogi ymarferwyr i gynnal eu sgiliau iaith a datblygu eu harbenigrwydd.

Er gwaethaf egni arwyddocaol yn cael ei roddi mewn partneriaeth â'r consortia rhanbarthol, mae recriwtio yn bryder barhaus, yn enwedig yn y sector uwchradd lle mae nifer y staff gyda sgiliau iaith Gymraeg ar lefel lle gallent gyflwyno'r cwricwlwm yn y Gymraeg yn hyderus yn llawer is na'r lefelau sydd eu hangen i ehangu ein cynnig cwricwlwm cyfrwng Cymraeg a dwyieithog.

Ar hyn o bryd yn y sector cynradd Cymraeg ei gyfrwng, mae lefelau staffio yn awgrymu dim swyddi gwag gyda phob swydd wag yn cael ei llenwi, ond yn aml ar ôl hysbysebion lluosog. Fodd bynnag, yn y sector uwchradd, mae'r ysgol wedi gorfod defnyddio athrawon trwyddedig a rhai sydd â chymwysterau mewn lleoliadau eraill i lenwi chwe swydd ar hyn o bryd ac er gwaethaf ymdrechion i recriwtio pennaeth gyda'r cymwysterau a'r profiad priodol, mae'r ALL wedi gorfod gwneud trefniadau pennaeth dros dro / pennaeth cymorth.
Y cam nesaf yw i'r ALl ystyried trefniant Pennaeth Gweithredol os bydd y sefyllfa yn parhau.

**Lle rydym yn anelu at fod o fewn 5 mlynedd gyntaf y Cynllun hwn a sut ydym yn cynnig cyrraedd y pwynt hwnnw?**

**Camau gweithredu i gyflawni'r targedau:**

- Mewn cydweithrediad â'r consortia rhanbarthol, byddwn yn parhau i ddadansoddi a chasglu data gweithlu i gael gwybod am anghenion hyfforddiant iaith ac addysgeg ac anghenion recriwtio staff lleol a staff penodol i ysgolion. Bydd hyn yn cynnwys dadansoddiad ym mlwyddyn gyntaf y cynllun i benderfynu ar y gweithlu sydd ei angen i ymateb i ehangiad addysg Gymraeg ei chyfrwng yn ystod oes y cynllun.
- Byddwn yn systematig yn datblygu sgiliau a hyder ein gweithlu ysgol drwy weithio gyda phartneriaid i gyflwyno rhaglenni hyfforddiant gyda ffocws penodol ar ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd hyn yn cynnwys:
  - Gweithio gydag arweinwyr ysgolion, arweinwyr Dysgu Proffesiynol clystyrau a chydgysylltwyr yr iaith Gymraeg i gefnogi asesiad cywir o anghenion iaith Gymraeg yn unol â'r Fframwaith Cymhwysedd Iaith Gymraeg ac adnabod anghenion hyfforddi ar lefel clwstwr ac ysgol.
  - Cyfeirio ysgolion i amrediad o opsiynau hyfforddi rhanbarthol, arlein a Chymraeg i Oedolion i gefnogi datblygu'r iaith Gymraeg
  - Cydweithredu gyda Llywodraeth Cymru i adnabod anghenion hyfforddi Sabothol. Recriwtio i'r cynllun, gweithio gyda HEI i gefnogi ymarferwyr yn ystod eu hastudiaethau a darparu cymorth dilynol a chyfleoedd rhwydweithio.
  - Cyflwyno hyfforddiant iaith, yn enwedig i'r sector cyfrwng Saesneg i gefnogi eu gallu i gyflenwi Cymraeg ar y continwwm iaith Gymraeg.
  - Darparu dysgu proffesiynol ar ddulliau addysgeg a methodolegol o ddysgu Cymraeg i gefnogi gyda chaffaeliad a throchi yn yr iaith Gymraeg.
  - Gweithio mewn partneriaeth gydag ysgolion i ddatblygu a rhannu adnoddau a gwaith cynllunio i gefnogi cyflenwi'r Gymraeg.
  - Darparu cyfleoedd rhwydweithio i gefnogi cyflenwi negeseuon allweddol ac i alluogi rhannu arferion gorau wrth gyflenwi a datblygu'r Gymraeg. Mae rhwydweithiau presennol yn cynnwys:

  - Rhwydwaith cydlynwyr llythrennedd y Gymraeg (Cymraeg a Llythrennedd) (ysgolion cyfrwng Cymraeg)
  -
  - Rhwydwaith Siarter Iaith Network (ysgolion cyfrwng Cymraeg)
  - Rhwydwaith yr iaith Gymraeg a Chymraeg Campus (cynradd cyfrwng Saesneg)
  - Rhwydwaith Sabothol Cymraeg
  - Penaethiaid adran y Gymraeg (cyfrwng)
  - Rhwydwaith Siarter Iaith (ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg)

- Rhwydwaith Penaethiaid Cymraeg (cyfrwng Saesneg)
- Rhwydwaith dwyieithrwydd yn y cyfnod uwchradd

- Datblygu cyfleoedd ymhellach drwy weithio ar y cyd rhwng darparwyr Hyfforddiant ac Addysg Ragarweiniol Athrawon (ITET), y consortia rhanbarthol a darparwyr dysgu eraill seiliedig yn y gwaith i recriwtio staff gyda'r profiad a'r cymwysterau addas.
- Cydweithredu gyda'r 'Coleg Cymraeg Cenedlaethol' a Sefydliadau Hyfforddi Athrawon i annog disgyblion i ystyried a dilyn gyrfa mewn addysg (i ddysgu yn y sector dwyieithog a dysgu'r Gymraeg fel pwnc)
- Byddwn yn defnyddio'r rhaglen seminar ar gyfer llywodraethwyr i gynyddu ymwybyddiaeth o gynnwys a goblygiadau'r CSCA i'w hysgol benodol nhw mewn perthynas â'r angen am ffocws ar ddatblygiad dwyieithog a datblygiad proffesiynol staff ynglŷn â defnyddio'r Gymraeg.
- Bydd mynediad i'r cynllun sabothol iaith Gymraeg yn cael ei dargedu tuag at ardaloedd blaenoriaeth ar draws yr awdurdod lleol gan gynnwys gweithio gyda Llywodraeth Cymru ac EAS i deilwra a gweithredu modelau Cynllun Sabothol yn y dyfodol a chefnogi recriwtio – angen ehangu'r cap rhanbarthol presennol o 14.
- Darparu cymorth dilynol i'r rhai sy'n mynd ar y Cynllun Sabothol, a gweithio gyda nhw gan gynnwys graddedigion Cymraeg mewn Blwyddyn i feithrin capasiti drwy'r model clwstwr rhanbarthol ac LNS.
- Cydweithredu gyda Choleg Gwent i gynyddu nifer y staff academaidd 50% sy'n rhugl neu a sgiliau Cymraeg uwch ac ehangu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog bresennol i feysydd cwricwlwm blaenoriaeth eraill cyfrwng Cymraeg y cwricwlwm (fel y pennwyd gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol). Bydd hyn yn cynnwys cymryd rhan yng nghynllun mentora Sgiliaith er mwyn cefnogi staff gyda chyflwyniad cyfrwng Cymraeg a dwyieithog, ceisio cyfleoedd i gymell a denu staff sy'n siarad Cymraeg o bob cwr o'r wlad ac ystyried opsiynau i lacio gofynion PGCE mewn rhai sefyllfaoedd er mwyn denu mwy o ymgeiswyr. Caiff yr unigolion hyn eu noddi i gwblhau ein PGCE mewnol yn y ddwy flynedd gyntaf o gyflogaeth.
- Gweithredu yn llwyddiannus brosiect Blwyddyn i Ffwrdd Torfaen mewn partneriaeth gyda Choleg Gwent i recriwtio a hyfforddi staff CC ychwanegol, gan gynnwys llwybrau dilyniant a chymwysterau yn arwain at achrediad cenedlaethol i athrawon. Gweithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru yng nghyfnod cynnar cyfnod y CSCA newydd i wella'r broses o gasglu a dadansoddi data ar staff dysgu ledled Cymru, a defnyddio data lleol yn benodol i dargedu cynnydd yn y cyfran o'n gweithlu gyda'r sgiliau iaith ar lefel sylfaen, ac ar lefel ganolraddol neu uwch.

**Lle rydyn ni'n disgwyl bod ar ddiwedd ein Cynllun deng mlynedd?**

Erbyn diwedd y cynllun 10 mlynedd:

- Mae problemau recriwtio wedi eu trin. Mae capasiti gweithlu addysg Torfaen yn diwallu'r galw ac mae gan bob ysgol athrawon gyda'r cymwysterau a'r profiad priodol a staff cymorth i gyflwyno'r cwricwlwm a phrofiad dwyieithog i roi i ddisgyblion yr hyder i siarad a defnyddio'r Gymraeg nid yn unig yn academaidd (llafar, darllen ac ysgrifennu) ond hefyd yn gymdeithasol.
- Mae capasiti a sgiliau iaith Gymraeg gweithlu Torfaen yn cefnogi lleoliadau addysg yn diwallu'r galw a gynhyrchir mewn lleoliadau Cymraeg eu cyfrwng.

- Bydd targedau sy'n benodol i Goleg Gwent yn anelu at gynyddu ymhellach y nifer o staff academaidd rhugl ac uwch (o'r lefelau presennol ym mis Mehefin 2021) i alluogi i'r coleg gynnig modiwlau Cymraeg eu cyfrwng a dwyieithog ym mhob maes blaenoriaeth yn y cwricwlwm, sef

  - Gofal plant
  - Iechyd a Gofal Cymdeithasol
  - Gwasanaethau Cyhoeddus
  - Chwaraeon
  - Lletygarwch a Thwristiaeth
  - Seiliedig ar y tir
  - Busnes, TG a Chyfryngau

fel y pennwyd gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

## Sut byddwn yn gweithio ag eraill i wireddu ein gweledigaeth

Cyfarfu'r Fforwm Cymraeg mewn Addysg, CMA, yn rheolaidd drwy gydol 2021 gan gynnwys diwrnod cynllunio rhithwir llawn ar 9fed Gorffennaf i ddatblygu'r cynllun drafft ar y cyd.

Ar ôl i'r cynllun gael ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru, bydd y Fforwm wedyn yn monitro gweithrediad y cynllun drwy gyfrwng cyfarfodydd tymhorol a gwerthuso cynnydd o gymharu gyda'r camau gweithredu a'r targedau.

Mae gan y fforwm gynrychiolwyr o blith holl randdeilaid ar draws y lleoliadau addysg perthnasol gan gynnwys penaethiaid cynradd ac uwchradd, Coleg Gwent, RhAG, Mudiad Meithrin, consortia rhanbarthol EAS, Pennaeth Dysgu, y Gwasanaeth Addysg, Swyddog yr Iaith Gymraeg, Menter Iaith BGTM a Llywodraeth Cymru (Adran yr Iaith Gymraeg).

Rydym hefyd yn ymroddedig i weithio gyda Llywodraeth Cymru mewn perthynas â gwell data ar staff dysgu ledled Cymru.